

y dinesydd

www.dinesydd.com

Medi 2007

Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch

Rhif 321

LLWYDDIANT YN YR WYDDGRUG



Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr o Gaerdydd yn Eisteddfod Sir Y Fflint (Adroddiad llawn ar dudalen 8)

Côr Aelwyd Hamdden Caerdydd yn fuddugol yn y gystadleuaeth i Gôr Pensiynwyr dros 20 mewn nifer

Isod: Côr CF1 yn fuddugol yn y gystadleuaeth Côr Cymysg o unrhyw nifer dros 20



O'r Wyddgrug i Gaerdydd

Tua chwech o'r gloch nos Sadwrn ola'r Steddfod yn yr Wyddgrug y daeth y sylweddoliad yn sydyn. Mae'r Wyl hon nawr ar ben; ein Steddfod ni sy nesa, a hynny'n codi tipyn bach o ddychryn wrth ystyried cymaint o waith sy'n dal ar ôl i'w wneud. Rhyw hanner ffordd at y nod ariannol ydyn ni ar hyn o bryd, ac mae her fawr o'n blaene i godi ymwybyddiaeth ymhlith trwch pobl y Brifddinas fod y Steddfod Genedlaethol yma, yng nghysgod y castell, Awst nesa!

Felly apêl fach yw hon, anogaeth falle, i bawb ail-dorchi llewys unwaith bod gwylie'r haf ar ben. Rwy'n gwybod bod llu o wirfoddolwyr wedi bod wrthi ers blwyddyn a mwy yn trefnu pob math o weithgareddau i godi arian. Gobeithio y bydd pawb ohonoch chi'n cael ail wynt dros y gae! Ond sgwn i a oes yna rai Cymry da yma, rhai sy'n byw bywyd digon bras falle ar gorn y Gymraeg, sy'n

teimlo y gallasen nhw, y dylsen nhw falle, ymuno yn yr ymdrech? Peth hawdd yw gadael y gwaith i eraill. Felly dewch, bydden ni wrth ein bodd cael unrhyw gyfraniad – amser, arian, syniadau, a chefnogaeth i'r gweithgareddau.

Mae Sir Fflint eleni wedi gosod y safon. Fe gafwyd Steddfod wych er gwaetha'r holl anawsterau. Ac er iddyn nhw gael cost ychwanegol o £60,000 i gael y maes yn barod oherwydd y tywydd, ni wnaethpwyd yr un ddime o golled, ac maen nhw'n haeddu pob clod am y llwyddiant.

Dyna'r her felly, ac mae angen pob cefnogaeth bosib i wneud yn siŵr fod y Brifwyl gynta i ddod i Gaerdydd ers deng mlynedd ar hugain hefyd yn llwyddiant ysgubol. Gwae ni os na fydd hi!

Diolch o galon.

Huw Llywelyn Davies
(Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith)

ADDYSG GYMRAEG - Y SEFYLLFA ERBYN HYN

Mae'r problemau sy'n deillio o'r twf aruthrol yn y galw am addysg Gymraeg yn y ddinas yn parhau i achosi pen tost i gynghorwyr rhanedig Cyngor y Ddinas ac i swyddogion yr Adran Addysg. Mae'n dal yn ofid mawr hefyd i rieni sy â phlant yn yr ysgolion Cymraeg ac i'r rhai sy'n dymuno cael lle i'w plant yno yn y dyfodol agos.

Y newyddion da yw y bydd 3 dosbarth cychwynol newydd yn agor eleni. Bydd 2 o'r dosbarthiadau, sef yr un yn Ysgol y Teulu Sanctaidd ar gyfer dalgylch Coed-y-gof, a'r llall yn Ysgol Parc Ninian ar gyfer dalgylchoedd Treganna/Pwll Coch, yn agor yn hollol gyfreithiol am nad oedd gwrthwynebiad i hysbysiad swyddogol y Sir o'u bwriad. Bydd y dosbarth yn Oakfield yn nalgylch Bro Eirwg yn agor serch y gwrthwynebiad a fu yno gan fod y Sir yn gobeithio cael caniatâd y Gweinidog Addysg yn ystod y flwyddyn nesaf a bod angen y dosbarth yn ddi-oed. Ni fu gwrthwynebiad i agor y dosbarth a arfaethwyd yn Ysgol St Philip Evans yn nalgylch Y Berllan Deg ond yn y diwedd dim ond un plentyn a gofrestrwyd i'r dosbarth, a phenderfynwyd peidio ag agor y dosbarth. Mae'n bur debyg y bydd angen atgyfodi'r cynllun hwn ar gyfer 2008.

Cyfanswm y plant a ddisgwylir i ddechrau addysg Gymraeg eleni yw 512 o'i gymharu â 464 y llynedd, twf o dros 10%; yn dilyn patrwm blynyddoedd cynt mae'n bosib y bydd rhai plant ychwanegol yn cyrraedd yn hwyr. Byddai hyn yn codi'r twf yn nes at yr 20% (550 o blant), sef y ffigwr y soniwyd amdano'n gynharach yn yr ymgyrch pan holwyd rhieni faint fyddai â diddordeb mewn addysg Gymraeg i'w plant. Mae colled fel hyn wedi digwydd o'r blaen ar adeg ansicrwydd ar ran y rhieni parthed y ddarpariaeth y gellid yn sicri ei disgwyl ar gyfer addysg Gymraeg.

Tudalen 2 ➔

**CYFARFOD CYFFREDINOL
BLYNYDDOL
Y DINESYDD**

Capel Bethel, Maes y Deri,
Rhiwbeina, Caerdydd

Nos Lun 10 Medi 2007 am 7 pm

Y Dinesydd

www.dinesydd.com

Golygydd y rhifyn hwn:

Bryan James

Golygydd y rhifyn nesaf:

Elin Jones

Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Hydref 2007 erbyn 24 Medi at:

Elin Jones,

62 Hazelhurst Road, Ystum Taf,

Caerdydd. CF14 2FX

e-bost: ystumtaf@nascr.net

ffôn: 029 20554239

neu at Gadeirydd Pwyllgor Y Dinesydd:

Peter Gillard, Tŷ Llwyd, Drope Rd.,
Sain Siorys, Bro Morgannwg CF5 6EP

(e-bost: pagillard@yahoo.co.uk;

ffôn: 01446-760007).

MANYLION CYSYLLTU

Calendr y Dinesydd

Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr
Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ

(JamesEW@caerdydd.ac.uk;

029-2062-8754)

Hysbysebion

Siân Lewis, Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88
Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14
2FG (sian@dinesydd.com; 029-2056-5658)

Derbyn a dosbarthu copïau

Ceri Morgan, 24 Cwm Gwynlais,

Tongwynlais, Caerdydd CF15 7HU

(ceri33@btopenworld.com; 07774-816-209)

Rhoddion a thaliadau

Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter Caerdydd,

Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf,

Caerdydd CF14 2FG

Noddi rhifynnau

ac ymholiadau cyffredinol

Peter Gillard 01446-760007.

Cyhoeddir Y Dinesydd gan
Bwyllgor Y Dinesydd.

Fe'i cysodir gan Penri Williams
a'i argraffu gan

Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad Y Dinesydd yn dibynnu ar
roddion gan unigolion a
chymdeithasau. Rydym yn croesawu
pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch at:
Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter
Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr
Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd. CF14
2FG.

ADDYSG GYMRAEG - Y SEFYLLFA ERBYN HYN (parhad o dudalen 1)

Newyddion da hefyd yw'r ffaith bod Melin Gruffydd yn cael derbyn hyd at 60 plentyn eleni i'r Dosbarth Debyn ac yn cael meddiannu adeilad Ysgol Eglwys Wen yn y dyfodol. Yn anffodus nid yw'r newyddion i gyd yn dda. Hyd yn hyn nid oes amserlen ar gyfer y datblygiadau yn yr Eglwys Newydd - mae'n debyg bod cefnogwyr Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn anffodlon â'r cynllun gan y byddai'n llesteirio llif y disgyblion o'r tu fas i'w dalgylch i mewn i'r ysgol. Nid oes sicrwydd y bydd y cynghorwyr yn fodlon gwrthsefyll y gwrthwynebiad i'w cynllun er taw hyn fyddai'n deg i blant y dalgylch sy'n dymuno addysg Gymraeg yn eu cynefin. Ni fydd Ysgol Melin Gruffydd yn gallu derbyn 2 ffrwd eto yn 2008 heb ragor o ystafelloedd ac nid yw'n gallu derbyn, eleni, y 72 sy'n ceisio lle yn y dosbarth meithrin. Os bydd y 72 plentyn sy'n oed Meithrin eleni yn dyfod yn 72 sy o oed Derbyn yn 2008, wedyn bydd eisiau 3 ffrwd rywle yn ardal yr Eglwys Newydd. Deallaf nad yw'r swyddogion addysg yn awyddus i weld Melin Gruffydd yn troi yn ysgol 3 ffrwd (pe bai lle ar y safle - a does dim yno) ac felly maent yn derbyn yr angen i sefydlu ysgol arall yn yr ardal.

Mae angen, felly, i rieni bwysu am y canlynol.

1. Penodi lleoliad parhaol ar gyfer y 3 ysgol sydd i dyfu o'r 3 dosbarth cychwynnol. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn dechrau'r broses o ymgynghori i arwain at gau y 3 ysgol Saesneg lle bydd yr ysgolion Cymraeg yn agor, am taw dyna'r unig ffordd i gael yr ysgolion.
2. Parhau â'r penderfyniad i agor ysgol arall yn nalgylch Y Berllan Deg, serch beth sydd wedi digwydd eleni. Bydd ei hangen.
3. Cau Ysgol Cefn Onn eleni fel bydd Y Wern o'r diwedd yn cael adeiladau parhaol ar gyfer yr holl blant sy'n mynd yno. Mae Cefn Onn yn marw fel ysgol beth bynnag, gyda llai na 10 plentyn yn ceisio mynediad eleni.
4. Trosglwyddo'r safle cyfan i Ysgol Melin Gruffydd yn fuan, ac yn bendant erbyn 2009, er mwyn cael ysgol 2 ffrwd mewn adeilad addas.
5. Datrys problem diffyg lle pellach ardal yr Eglwys Newydd yn 2008, fel, er enghraifft, sefydlu dosbarth cychwynnol/ysgol arall yn ardal Yr Eglwys Newydd/Rhiwbeina..

Wrth sôn am newyddion da a chymysg, yn anffodus rhaid adrodd nad oes unrhyw newyddion am Ysgol Treganna, ac mae hyn mewn gwirionedd yn newyddion drwg iawn. Mae'n debyg bod y gwleidyddion wedi anghytuno ar gynlluniau addysg yng ngorllewin Caerdydd, ymadrodd sydd yn sicr yn cynnwys dyfodol Ysgolion Radyr a Chantonian ond efallai hefyd dyfodol y 5

ysgol gynradd yn Nhreganna, sef Radnor, Lansdowne a Severn Rd (ysgolion cymunedol Saesneg), Treganna (ysgol Gymraeg) ac Ysgol Babyddol y Santes Fair. Mae Treganna yn orlawn er ei bod yn gwasanaethu'r dalgylch Cymraeg lleiaf yng Nghaerdydd; nid yw'r ysgolion Saesneg yn llawn o bell ffordd - eleni mae llawr cyfan Severn Rd yn mynd at ddefnydd cyrsiau hyfforddi athrawon. Mae dalgylch Treganna yn ynys yn nalgylch mwy Y Pwll Coch. Mae'r 2 ysgol yn cael help i ddelio â'r galw trwy agor y dosbarth cychwynnol yn Ysgol Parc Ninian, sy ar yr un pryd yn cynnig ysgol llawer yn nes i blant y Grange, lle mae nifer cynyddol o Gymry ifanc yn mynd i fyw. Ond nid yw agor ym Mharc Ninian yn gyfleus i blant dalgylch pell Treganna, ac nid yw'n gwneud dim i alluogi'r plant sydd yn Nhreganna'n barod i gael profiad addas o addysg mewn adeiladau digonol. Nid yw galw coridor yn "Neuadd" yn darparu neuadd mewn gwirionedd. Mae'n rhaid inni gyd ddal ati i gefnogi rhieni Treganna yn eu hymgyrch i fynnu bod y Sir yn dod o hyd i ateb teg i bawb sy'n byw yn yr ardal, ac nid i barhau i anwybyddu amgylchiadau plant a staff Treganna rhag ofn amharu ar gysur y 4 ysgol arall sy angen eu hail-strwythuro i ddarparu lle digonol i'r ysgol Gymraeg ar un o'r 4 safle.

Mae sefydlu'r 3edd ysgol uwchradd wedi cymryd cam arall trwy brosesau'r Cyngor ond, yma unwaith eto, nid oes amserlen wedi'i sefydlu. Angen addysg Gymraeg yw agor yr ysgol yn 2009; hebddi, bydd rhaid ymestyn Glantaf a Phlasmawr tu hwnt i'w maint parhaol gan greu problemau staffio ac ariannu hir-dymor tebyg i'r rhai a wynebwyd gan Lantaf wrth sefydlu Plasmawr a Bro Morgannwg; yr ail wedi effeithio ar Blasmawr, hefyd. Yn anffodus mae sefydlu'r 3edd ysgol yn rhan o broses gymhleth sy'n golygu cau un ysgol, sef Llanedeyrn, symud yr ail sef Teilo Sant, i adeilad Llanedeyrn, darparu ar gyfer rhieni nad ydynt yn fodlon ar addysg eglwysig mewn trydedd a phedwaredd ysgol (Llanisien a Cardiff High), ac agor pumed ysgol, sef Yr Ysgol Gyfun Gymraeg Newydd. Bydd yn syndod i'r swyddogion addysg ac i RhAG os na fydd hyn oll yn cynhyrchu gwrthwynebiad o bob cyfeiriad - yn y Cyngor, o gyfeiriad y cyrrff llywodraethol a'r rhieni, gerbron y gweinidog addysg, yn y llys, ayyb. Mae eisiau i rieni Cymraeg leisio eu barn ym mhob un o'r cyfarfodydd ymgynghorol fydd yn dechrau yn yr hydref.

Mae'r newyddion yn dda ar y cyfan ond mae sawl brwydr o'n blaen os ydym fel Cymry Gymraeg Caerdydd i chwarae ein rhan er sicrhau dyfodol ein cymuned, sef ein plant. Ac yn y brwydrau hyn mae'n well inni siarad yn blaen ond fel un dyn heb wastraffu egni ar ymladd ymysg ein gilydd.

Michael Jones, ar ran RhAG

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH



www.bwrdd-yr-iaith.org

Cyfraniad allweddol i addysg yng Nghymru

Fis Gorffennaf daeth yn adeg ymddeol i Iolo Walters, wedi 32 o flynyddoedd ar staff CBAC. Yn dilyn ei gyfnod yn fyfyrwr yn Aberystwyth, bu Iolo'n athro'r Gymraeg yn y Bontfaen a Chaerffili, cyn ymuno â CBAC yn 1975. Darpariaeth adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a'r celfyddydau ieuenctid oedd prif feysydd cyfrifoldeb Iolo yn CBAC. Bu ei gyfraniad yn ddylanwadol ac yn allweddol mewn datblygiadau pwysig ym myd addysg yng Nghymru mewn cyfnod o newidiadau mawr.

Diolchwn iddo am ei arweiniad a'i gyfraniad, gan ddyuno'n dda i Eiryl ac yntau ar gyfer y dyfodol.

Gareth Pierce
Prif Weithredwr CBAC



Llongyfarchiadau i:

- Reuben a Lowri Mifsud o Benylan ar enedigaeth Tomos Alexander ar 12 Gorffennaf. Brawd bach i Cai Aaron.
- Owen a Nia Williams, Rhiwbeina, ar enedigaeth Gruffudd Llewelyn ar 25 Gorffennaf yn Ysbytry'r Brifysgol. Brawd bach i Malan.
- Gareth a Veronica Kiff, Parc y Rhath, ar enedigaeth Manon Sofia yn Ysbytry'r Brifysgol ar 10 Awst – eu cyntaf-anedig.
- Nia Eleri ac Eifion Gwynne, Aberystwyth, ar enedigaeth Modlen Haf ar 11 Gorffennaf - chwaer fach i Mabli Eleri, ac wyres i Eleri a Robin Gwyndaf, Llandaf.
- Paul Jardine a Rhian Huws ar eu priodas yn y Tabernacl, Efail Isaf, ar 21 Gorffennaf. Mae Rhian yn ferch i Gareth a Morfydd Huws, Pentyrch, perchnogion Y Mochyn Du.
- Idwal a Mair Hughes, y Mynydd Bychan, ar ddatlu eu Priodas Aur ar 1 Awst.
- Eluned Haf, gynt o Bontnewydd, Caernarfon, ar ei phenodi'n Gyfarwyddwr Celfyddydau Cymru Rhyngwladol – sy'n pontio rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Prydeinig yng Nghymru.
- Angharad Rogers, Glan yr Afon, ar gael ei phenodi'n athrawes Gymraeg yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn y Barri.
- Hywel Gwynfryn ar ddatlu ei ben-blwydd yn 65 oed ar 13 Gorffennaf.

Newyddion

Newid yn Ysgol Iolo

Ar ôl blynyddoedd o wasanaeth gwiw, mae Alan W. Jones, yr Eglwys Newydd, wedi ymddeol o'i swydd yn Bennaeth ar Ysgol Iolo Morganwg, y Bontfaen. Ei olynydd yw Dylan Wyn Evans. Cyn y penodiad bu Dylan yn Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Gymraeg Caerffili. Dymunwn ymddeoliad hapus i Alan a phob llwyddiant i Dylan yn y swydd newydd.

Cyn-Brifweithredwr S4C

Penodwyd Huw Jones, cyn-Brifweithredwr S4C, yn Gadeirydd newydd y cwmni sy'n rheoli Portmeirion ger Porthmadog. Mae'n olyn Euan Cooper-Willis, fu yn y swydd am 28 o flynyddoedd. Rheolwr Gyfarwyddwr y Cwmni yw Robin Llywelyn, wŷr Syr Clough Williams-Ellis, sylfaenydd y pentre.

Hefyd, penodwyd Huw yn Gadeirydd Cwmni Cyfle – sy'n hyfforddi ar gyfer y byd teledu a ffilm.

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ar 18 Mehefin ac etholwyd Falmai Griffiths yn Gadeirydd, Ann Brain yn Ysgrifennydd a Gwyneth Jennings yn Drysorydd.

Cerdded yn lle rhedeg i godi arian

Er mwyn dathlu ei ben-blwydd yn hanner cant oed, penderfynodd Huw Roberts, yr Eglwys Newydd, sy'n aelod yn y Tabernacl, yr Ais, y byddai'n mynd ar bererindod o 70 milltir drwy Galicia

yn Sbaen, i Santiago de Compostela. Ei nod yw codi £5,000 tuag at Sefydliad y Galon a chlinig yn Lesotho a noddir gan ei gapel. Fel arfer bydd Huw yn rhedeg marathon, ond y tro hwn penderfynodd gael newid!

Ysgoloriaeth Saunders Lewis

Llongyfarchiadau i Manon Hefin Mathias o'r Eglwys Newydd, a chyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Glantaf, ar dderbyn Ysgoloriaeth Goffa Saunders Lewis. Ar hyn o bryd mae Manon wrthi'n astudio ar gyfer doethuriaeth yng Ngholeg y Drindod, Rhydychen, ar ôl graddio yno y llynedd gyda dosbarth cyntaf mewn Ieithoedd Modern. Ar gyfer yr ysgoloriaeth, bydd yn cymharu llythyrau George Sand a Gustave Flaubert, a Kate Roberts a Saunders Lewis.

Edrych am swydd newydd? Recriwtio siaradwyr Cymraeg?



Gwasanaeth recriwtio ar gyfer siaradwyr Cymraeg yw Job Trac Cymru. Os ydych chi'n edrych am waith lle gallwch chi ddefnyddio eich iaith cysylltwch â ni i gofrestru.

Os ydych chi'n gwmni sydd eisiau cymorth i recriwtio siaradwyr Cymraeg dros dro neu barhaol, cysylltwch â ni am fwy o fanylion.

Job Trac Cymru Cyf, Canolfan Datblygu Busnes, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd CF37 5UR

01443 843800 post@jobtraccymru.co.uk
www.jobtraccymru.com

Edrych am waith? Defnyddiwch eich iaith

Mae'n bryd i ni newid yr hinsawdd

Mae Cymorth Cristnogol yn trefnu taith gerdded 1,000 o filltiroedd i dynnu sylw at yr angen i 'dorri'r carbon' sy'n cael effaith mor niweidiol ar hinsawdd ein byd. Bydd y daith yn cychwyn ym Melfast ac yn gorffen, ar ôl 80 diwrnod, yn y Gyfnewidfa Stoc yn Llundain. Ymhlith y teithwyr bydd cynrychilwyr o wledydd tlawd a chyfoethog, a'r bwriad yw mynd â neges glir i'r Aelodau Seneddol a'r cwmnïau mawrion ynglŷn ag effeithiau newid hinsawdd ar gymunedau tlotaf y byd.

Bydd y daith yn dod trwy Dde Cymru o'r 2 - 9 o Fedi, gyda rali fawr yn Coopers Field, Caerdydd, ar brynhawn Sadwrn yr 8fed. Y gobaith yw cael cefnogwyr lleol i gyfarfod â'r cerddwyr ar Lwybr Taf yn Blackweir am 2.30, a cherdded gyda nhw i'r rali (3.30 tan 5.00o'r gloch) lle bydd siaradwyr, adloniant, grwpiau, ffilmiau, sgiliau syrcaas, paentio wyneb a stondinau.



Mae John Rowlands, Yr Eglwys Newydd, yn un o'r grŵp sy'n cerdded. Os hoffech chi, ddarllenwyr Y Dinesydd, ddangos eich cefnogaeth i John ac i'r ymgyrch, mae croeso i chi ymuno â'r daith fer yng Nghaerdydd a'r rali yn Coopers Field ar 8 Medi.

Am fwy o wybodaeth am y daith gerdded yma a'r ymgyrch, ewch i: <http://www.christianaid.org.uk/stoppoverty/climatechange/march/>

Croeso i'r brifddinas i:

- Siân Eirian, Gwraig Gymreig y Flwyddyn, gynt o Langernyw, a chyn-Gyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd am saith mlynedd. Pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd.
- Dr Tom Davies a Rosina Davies sy wedi symud o Flaendulais i fyw yn Llanisien.
- Beatrice Jones o'r Gaiman yn y Wladfa i Riwbeina i aros gyda'i merch, Miriam Tilsley, am gyfnod.
- Yn ystod yr haf croesawyd pump o bobl o'r Wladfa ar gwrs Cymraeg am ddau fis ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd pedwar yn dod o'r Andes ac un o Drelew yn y Dyffryn.

Darlith yn Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd

Yn y Ganolfan Astudiaethau Cymreig Americanaidd yn Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd nos Wener 20 Gorffennaf, traddodwyd darlith ddiddorol gan Michelle Langfield o Brifysgol Deakin ym Melbourne, Awstralia, ar lyfr a gyhoeddwyd ganddi hi a Peta Roberts o'r enw 'Welsh Patagonians - The Australian Connection'.

Merched y Wawr Bro Radur

Bu dau ddigwyddiad o bwys yr Haf 'ma pan ymunodd rhai o aelodau cangen Radur gyda changhennau eraill o Ranbarth De Ddwyrain Morgannwg i ddatlu deugain mlynedd ers pan sefydlwyd Merched y Wawr. Ar Sadwrn, y 9fed o Fehefin, fe aethom i'r Bala i ymuno gydag aelodau'r Mudiad o bob rhan o Gymru i gymryd rhan mewn pasiant gyda'r thema 'Rhialtwch y Rhuddem'. Braint a phleser oedd cael cymryd rhan yn hwn ac y mae'r diolch pennaf i Elenid Jones am lunio'r sgript, Rhiannon Evans am y llwyfannu, ac i Gill Griffiths, Llywydd y Rhanbarth, am gydllynu'r holl waith.

Yna, ar Orffennaf y 14eg, dydd Sadwrn heulog arall, fe aethom yn gochlyd ein gwisg (oherwydd yr achlysur) i ddathlu y Rhuddem ym Mharc Cwm Dâr, Aberdâr. Aeth oddeutu 50 ohonom i fwynhau prynhawn godidog yn y parc, a chyn cychwyn ar y daith gerdded cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan y Parch Eric Jones, Aberdâr. Rhoddodd ddarlun cyflawn o'r ardal lofaol fel ag yr oedd hi flynyddoedd yn ôl, ond sydd wedi newid yn syfrdanol wrth i fyd natur harddu'r Cwm. Wedi'r daith cawsom bicnic a theisen fendigedig wedi ei gwneud yn arbennig gan Gill Griffiths, Llywydd y Rhanbarth. Diolchodd Gill i bawb am eu cydweithrediad wrth baratoi am y dathliadau a fu mor llwyddiannus.

Bydd tymor newydd o Ferched y Wawr Bro Radur yn dechrau nos Fercher, y 5ed o Fedi, yn yr Eglwys Fethodist Saesneg, Windsor Road, Radur, am 7.30 p.m. Bydd croeso cynnes i aelodau newydd.

TI A FI BACH!

Bydd Cylch Meithrin Treganna yn dechrau sesiwn newydd ar gyfer rhieni neu ofalwyr sydd â babi nad yw'n cerdded eto! Cynhelir y sesiynau bob prynhawn dydd Mawrth rhwng 1-3 yng Nghanolfan Gymunedol Treganna, Heol Lecwydd, Treganna (yr adeilad tu ôl i Tesco) gan ddechrau ar Fedi'r 11fed. Cost pob sesiwn fydd dwy bunt ac yn cynnwys te a choffi.

Bydd yn gyfle gwych i rieni newydd rannu profiadau a chyngor gyda rhieni eraill, newydd a phrofiadol, mewn awyrgylch anffurfiol a hwyliog. Beth am alw mewn am glonc? Am fwy o wybodaeth croeso i chi gysylltu ag Anwen ar 07968 338148.

Cyflwyno Archif i'r Llyfrgell Genedlaethol

Yn ystod yr haf cyflwynwyd papurau a dogfennau personol Gareth Jones, y Barri, gan ei nith, Dr. Siriol Colley. Cafodd Gareth Jones ei eni yn y Barri yn 1905, a bu yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, cyn treulio tair blynedd yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt.

Yn ystod ei oes bu'n ohebydd papur newydd ac ar un adeg bu'n Ysgrifennydd Gwleidyddol i Lloyd George. Tynnodd sylw'r byd at yr anghyfiawnder difrifol yn yr Werân dan arweiniad Stalin a'r Undeb Sofietaidd. Ond, yn 1935, ac yntau ond yn 29 oed, tra oedd yn ymweld â Mongolia, fe'i llofruddiwyd gan wylliaid Tsieieaidd.

Pennaeth newydd i'r Coleg Cerdd a Drama

Hilary Boulding yw Pennaeth newydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd. Roedd yn gweithio i Gyngor Celfyddydau Lloegr, a chyn hynny bu'n gweithio i BBC Cymru fel Pennaeth Celfyddydau a Cherddoriaeth. Croeso'n ôl i Gymru, a phob llwyddiant yn y swydd newydd.

Diwrnod o ddathlu yn nodi 60 mlynedd ers trosglwyddo Castell Caerdydd i bobl Caerdydd



5ed Ardalydd Bute yn trosglwyddo'r brysgyll (y Mace) yn 1947

Bu llawer o ddigwyddiadau tynghedfennol yn ystod 2000 o flynyddoedd o hanes Castell Caerdydd. Digwyddodd yr un mwyaf diweddar ac arwyddocaol i bobl Caerdydd ym mis Medi 1947 pan roddodd 5ed Ardalydd Bute Gastell Caerdydd a'r tir parc o'i amgylch i bobl Caerdydd. I nodi 60 mlynedd ers trosglwyddo Castell Caerdydd, cynhelir diwrnod o ddathliadau ddydd Sul 9 Medi rhwng 9.30am a 5 pm gyda mynediad am ddim i'r tiroedd, teithiau tywys am bris gostyngol a rhaglen lawn o weithgareddau.

Bydd atgofion o'r cyfnod ar ôl y rhyfel yn cael eu hailgynnau gyda Dawns De o'r 1940au, cerddoriaeth o'r cyfnod a chaneuon i bawb o'r bandstand, rhaglen ar y thema gan fyfyrwyr Coleg Cerdd a Drama Cymru, arddangosfa hen geir ac, i atgoffa pobl o'r cyfnod caled hwnnw, gweithdai trwsio. Rhoddir teithiau tywys arbennig o Oriellau Murluniau cudd y Castell a ddefnyddiwyd fel lloches cyrch awyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bydd staff a pherfformwyr wedi eu gwisgo mewn dillad o'r cyfnod ac anogir ymwelwyr i ddod yn eu siwtiau *de-mob* neu wisgoedd eraill priodol! Rhoddir gwobr i'r wisg orau neu'r gofrod neu'r atgof gorau o'r cyfnod.

Bydd y diwrnod hwn o ddathlu hefyd yn gyfle i edrych i'r dyfodol ac amlygu datblygiadau newydd ar y gweill yng

Nghastell Caerdydd gyda theithiau rhagflas o'r Ganolfan Ddehongli newydd.

Ewch i www.cardiffcastle.com i gael rhagor o wybodaeth, neu ffoniwch 029 2087 8100.

Tŷ Trofannol newydd yn yr Ardd Fotaneg

Agorwyd Tŷ Trofannol newydd yn yr Ardd Fotaneg yn Llanarthne mewn seremoni ar 1 Gorffennaf. Cynlluniwyd y tŷ gan y pensaer enwog, John Belle, sy'n frodor o Bontcanna, ond sy bellach yn byw ac yn gweithio yn Efrog Newydd. Fe roddodd y gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim. Roedd y pensaer yn bresennol yn y seremoni yn Llanarthne, a thra oedd ar ei ymweliad â'r 'Hen Wlad', derbyniodd Gymrodoriaeth er Anrhydedd gan yr Ysgol Bensaernïol Gymreig, Prifysgol Caerdydd.

Newyddion cyffrous o Faes Awyr Caerdydd

Penodwyd Catrin Ellis, gynt o Gaernarfon, a sydd newydd raddio yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, i swydd ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. Fel rhan o'i dyletswyddau bydd yn gyfrifol am ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn y maes awyr.

Newyddion da arall yw bod y gwasanaeth awyr rhwng Maes awyr Caerdydd a Maes Awyr Môn yn y Fali, yn dangos arwyddion o lwyddiant. Sefdlwyd y gwasanaeth gan gwmni Highland Airways ryw dri mis yn ôl, ac ers hynny mae dros 5,000 o deithwyr wedi manteisio ar y gwasanaeth.

Gwefan Swyddi i Siaradwyr Cymraeg



safe swyddi

www.safleswyddi.com

DAWN MASON - TIWTOR CARTREF



Athrawes Gynradd

Hyfforddiant cartref yn-

* Mathemateg

* Iaith

* Darllen

* Gwyddoniaeth

Ffoniwch 07814 594 703
Ar gael o fis Medi ymlaen.



www.mentercaerdydd.org
029 20565658

Clybiau Plant

Dyma restr o glybiau plant tymor yr Hydref – Clwb Nofio, Clwb Cloesio, Clwb Celf, Clwb Sbaeneg, Clwb Tennis, Clwb Rygbi, Clwb Drama a Ffwnrais Awen. Fe fydd yr holl glybiau yn ail gychwyn o Fedi'r 24ain ymlaen.

Am fanylion llawn o weithgareddau'r tymor – ewch i'r wefan
www.mentercaerdydd.org



Bardd Plant Cymru, Caryl Parry Jones, yn ymweld â Chynllun Chwarae Melin Gruffydd dros yr Haf. Cafodd y plant amser gwych yn chwarae gyda geiriau a barddoni!

Clwb Pêl- Rwyd Menter Caerdydd

Fe fyddwn yn cynnal cyfarfod agored yn y Mochyn Du, Nos Lun, Medi'r 10fed am 7pm i drafod y tymor sydd i ddod. Fe fydd yr ymarferion yn cychwyn yr wythnos ganlynol – Nos Lun, Medi'r 17eg yn Ysgol Howells, Llandaf. Fe fydd y Clwb yn cofrestru ar gyfer Cynghriar unwaith eto eleni ac mae croeso i aelodau hen a newydd ymuno â ni. Am fanylion pellach, cysylltwch ag angharad@mentercaerdydd.org

Clwb Rhedeg Menter Caerdydd



Croeso i redwyr a loncwyr o bob safon

Cyfarfod bob nos Lun am 6pm tu allan i dderbynfa Canolfan Chwaraeon Gerddi Soffia.

Ailgychwyn nos Lun, Medi'r 10fed

Am fanylion pellach, cysylltwch ag angharad@mentercaerdydd.org

Ffarwelio â Rachael Evans

Fe fydd Rachael yn gadael y Fenter ddechrau mis Medi ar ôl treulio 2 flynedd a hanner prysur iawn yma. Diolch iddi am ei chyfraniad ac yn sicr fe fyddwn yn ei cholli hi yma yn y swyddfa.

Diolch yn fawr Rachael a phob hwyl i ti yn dy swydd newydd gyda Teledu Boomerang!

Gwersi Sbaeneg i Ddechreuwr.

Fe fydd y Fenter yn cynnig cwrs Sbaeneg i Ddechreuwr eleni eto – fe fydd tymor cyntaf y cwrs yn cychwyn Nos Fawrth, Medi'r 25ain ac yn rhedeg am 10 wythnos yng Nghanolfan Gymunedol Treganna rhwng 7.30pm a 9.30pm. Cost cofrestru â'r cwrs fydd £50. Am fanylion pellach neu am ffurflen gofrestru ar gyfer y Clwb Sbaeneg neu am wybodaeth am un o'r gweithgareddau i Oedolion cysylltwch ag Angharad ar angharad@mentercaerdydd.org

Cynghrair Badminton



Fe fydd Cynghrair Badminton NEWYDD SBON yn cychwyn yr Hydref hwn.

Croeso cynnes i chwaraewyr o bob safon!

Am ffurflen gofrestru a chopi o'r rheolau ebstiwrch angharad@mentercaerdydd.org neu ffoniwch 029 20 56 56 58.

Dyddiad cau ar gyfer cofrestru:
Dydd Iau, Medi'r 20fed



Cwis Cymraeg yn y Mochyn Du

Fe fydd cwis cymraeg y Fenter yn aildechrau Nos Sul, Medi'r 30ain yn y Mochyn Du am 8yh. Croeso cynnes i bawb.

Cwrs blasu Cymraeg i arolygwyr cinio ysgolion cynradd Caerdydd

Fe fydd y cwrs newydd unigryw yma'n cychwyn ym mis Medi ac yn rhedeg am 10 wythnos bob bore Mawrth rhwng 9.45yb a 10.45yb. Fe fydd y cwrs, sydd wedi cael ei greu'n unswydd ar gyfer rhoi blas ar yr iaith yn ogystal â chyflwyno gêmiau traddodiadol sy'n cael eu chwarae ar yr iard. Am fanylion pellach, cysylltwch â Sian Lewis ar 029 20 56 56 58 neu sianlewis@mentercaerdydd.org



Lansio llyfr er budd y Steddfod



Gwilym Roberts (hawffraint Martin Gwynedd)

Mae sawl dull a modd o fynd ati i godi arian at yr Eisteddfod Genedlaethol ond nid pawb sy'n mynd ati i ysgrifennu atgofion plentyndod a'u cyhoeddi mewn llyfryn dwyieithog. Ond dyna wnaeth Gwilym Roberts, Rhiwbeina, un o garedigion yr iaith Gymraeg. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o Gymry Caerdydd, mae Gwilym wedi ei eni a'i fagu yma – dyma ei filltir sgwâr, er bod teulu ei fam yn hanu o fferm 'Y Fron', Nant Peris, a'i dad yn frodor o Benrhyndeudraeth, yn fab i chwarelwr ac yn un o saith o blant.

Mewn noson i lansio'r llyfr yn ddiweddar talodd Alun Guy, a oedd yn llywio'r gweithgareddau, deyrnged i Gwilym am ei waith diflino a'i frwdfrydedd heintus dros achos y Gymraeg. Datgelodd hefyd gyfrinach neu ddwy nas croniclwyd yn y llyfr! Roedd yr oruwch ystafell yn nhafarn Y Deri, Rhiwbeina, dan ei sang o Gymry Cymraeg a di-Gymraeg o bob cwr o'r brifddinas, prawf o boblogrwydd yr awdur. Bydd pob ceiniog o elw gwerthiant y llyfryn yn mynd tuag at gronfa Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008. Mynnwch eich copi drwy ffonio'r awdur ar (029) 20693254. A'r pris? - £3.50 (+ 60c am y cludiant). Bargen!

Ann Brain

LLYFRAU

Brechdanau at ddant dysgwyr

Wyddech chi fod yna ddeg Caerdydd arall yn y byd? Un sydd yng Nghymru. Athrawes Gymraeg sy'n byw yn y ddinas yw awdur y llyfr newydd **Caerdydd** yng nghyfres *Brechdan Inc* a gyhoeddir gan Wasg Gomer. Mae Jo Knell yn rhoi cipolwg i ni ar y castell, y siopau, y farchnad, y parciau, yr adeiladau crand, y bobl a Bili'r morlo. Bili pwy? Wel, mae'n rhaid darllen ymhellach i ddarganfod pwy yw'r cymeriad hwn.

Llyfrau at ddant disgyblion ysgolion uwchradd sy'n dysgu'r Gymraeg yw *Cyfres Brechdan Inc* a bydd oedolion sy'n dysgu'r iaith hefyd yn croesawu cael cyfres o un ar hugain o lyfrau lliwgar a deniadol mewn iaith syml.

Daw rhai o'r awduron eraill yn y gyfres o Gaerdydd a'r cyffiniau, sef Aled Richards, Martin Gwynedd, Niclas ap Glyn a Lorraine Beard.

Rhywbeth bach blasus i aros pryd yw brechdan a dyna'n union nod *Brechdan Inc*. Mae'r amrywiaeth o ffuglen a phynciau ffeithiol yn cynnig amrywiaeth at ddant y darllenwydd. Drwy fwynhau'r cynnwys gall y dysgwr fagu digon o hyder i symud ymlaen i ddarllen llyfrau mwy swmpus.

Mae'r gyfres gyfan yn y siopau nawr, a phris pob llyfr yw £3.50.

Eiry Palfrey yn troi ei llaw at wneud ffilm

Mae Eiry Palfrey yn wyneb a llais cyfarwydd ar deledu a radio Cymru fel actores, cyflwynydd a chynhyrhydd. Mae hi nawr wedi gwneud ffilm a fydd yn cael ei dangos ar S4C yn y dyfodol agos – ffilm am fywyd ei mam-gu, Ellen Davies, neu Nel Fach y Bwcs fel y'i gelwid gan mai llyfrwerthwr oedd ei thad, a ymfudodd i Batagonia yn 1875 a hithau ond yn groten fach.

Mae llawer o'r ffilm yn seiliedig ar yr hanes rhyfeddol a geir yn y ddwy gyfrol boblogaidd *Nel Fach y Bwcs a Ffarwel Archenina* gan Marged Lloyd Jones, mam Eiry. Mae Gwasg Gomer newydd gyhoeddi diweddariad o'r cyfrolau hyn mewn un llyfr dan y teitl *O Drelew i Dre-fach*, wedi ei olygu gan Eiry.

Bydd o ddiddordeb i'r darllenwyr wybod bod Eiry Palfrey hefyd wedi cyfrannu at gynnwys llyfr newydd, *Ar Hyd y Flwyddyn* (Gomer), sef casgliad o straeon a cherddi'n ymwneud â phob mis o'r flwyddyn yn ei dro.

Awdur o Sblot

Mae Nicholas Daniels, sy'n byw yn Sblot ond gynt o Lanelli, ac yn dysgu yn Ysgol Gymraeg Evan James ym Mhontypridd, wedi ysgrifennu llyfr i blant o'r enw 'Y Llyfr Yrseitiau: Gwaed y Tylwyth'. Cafodd yr awdur ei ysgogi gan yr holl ddiddordeb yn llyfrau Harry Potter.

Llyfr Cymraeg y Flwyddyn



Lefi Gruffudd o'r Lolfa yn dathlu gyda'r awdur, Llwyd Owen, yn ystod y Noson Wobrwyo.

Llongyfarchiadau i Llwyd Owen ar ennill y wobr bwysig hon. Mae Llwyd yn frodor o Gaerdydd, yn fab i Arwel a Non Owen, Cyncoed, ac mae nawr yn byw yn ardal Parc Buddug gyda'i wraig a'i ferch fach.

Nos Lun, 9 Gorffennaf, yng Ngwesty'r Hilton, Caerdydd, cyflwynodd Harri Pritchard Jones, Cadeirydd yr Academi, sic o £10,000 i Llwyd Owen am ei nofel *Ffydd Gobaith Cariad* a wobrwrydd yn Llyfr Cymraeg y Flwyddyn 2007. Dyma ail nofel Llwyd ac mae hon eto wedi'i gosod yn y brifddinas. Mae'n nofel rymus ac yn llawn datblygiadau annisgwyl ac anhygoel.

Meddai John Rowlands, un o'r beirniaid:

"...dyma awdur a gynhyrfodd y dyfroedd eisoes am nifer o resymau, ond ein barn ni oedd fod hon yn nofel ysgytwol sy'n dal ei thir ar yr ail a'r trydydd darlleniad."

Mae *Ffydd Gobaith Cariad* yn nofel sy'n archwilio themâu megis marwoldeb, brad a chyfeillgarwch mewn ffordd onest a dirdynol gan godi cwestiynau am greddoau, crefydd a chariad. Mae llawer o'r deunydd yn seiliedig ar yr hyn dystiodd yr awdur wrth wlyio ei fam-gu'n diodde ar ei gwely angau. Yn ôl Llwyd: "Roedd Kitty'n ffeindio lot o gysur yn ei chrefydd, yn enwedig yn ystod ei blynyddoedd diwethaf, a 'naethon ni drafod pynciau dwys fel byw a marw, cariad a cholled, yn ogystal â'i hatgofion, yn aml. Heb os, mae hi wedi ysbrydoli rhannau helaeth o'r nofel, ac mae'r llyfr yn rhyw fath o deyrnged iddi hi."

Eisteddfod

GENEDLAETHOL CYMRU

Caerdydd a'r Cylch

NEWYDDION O SWYDDFA'R EISTEDDFOD

Gydag Eisteddfod Sir y Fflint a'r Cyffiniau 2007 nawr y tu ôl i ni, mae'r ffocws erbyn hyn yn troi at Awst 2008, ac Eisteddfod Caerdydd a'r Cylch. Cawn edrych yn ôl ar Eisteddfod Sir y Fflint fel yr 'Eisteddfod Lwcus'. Ddyddiau cyn i'r Wyl gychwyn roedd yna bryderon parthed cynnal yr Wyl ar ôl wythnosau o dywydd gwael! Fodd bynnag, fe gododd yr haul ac mi gawsom Eisteddfod lwyddiannus gyda 154,944 o ymwelwyr yn llifo trwy'r gatiau.

Bu'n 'Eisteddfod Lwcus' hefyd i rai o drigolion i Brifddinas, gyda nifer o'r Prif Wobrau yn cael eu cipio ganddynt.

Derbyniodd R. Alun Evans anrhydedd uchaf yr Eisteddfod Genedlaethol mewn seremoni yn y Pafiliwn brynhawn dydd Llun drwy gael ei urddo yn Gymrawd fel cydnabyddiaeth o'i wasanaeth i'r Brifwyl dros gyfnod maith. Mae o'n gyn-Lywydd Llys yr Eisteddfod ac yn gyn-Gadeirydd Cyngor yr Wyl. Dyma'r anrhydedd uchaf y gall yr Eisteddfod Genedlaethol ei rhoi, a chyda dim ond pum Gymrawd yn bosibl ar unrhyw un adeg, bydd R Alun Evans yn ymuno ag Aled Lloyd Davies, Gwilym E Humphreys, James Nicholas ac Alwyn Roberts.

Enillwyd y gadair gan T. James Jones, neu 'Jim Parc Nest' fel y'i hadnabyddir gan lawer, am awdl ar y testun *Ffin*. Y tri beirniad oedd James Nicholas, Myrddin ap Dafydd a Mererid Hopwood. Yn ei feirniadaeth dywedodd y cyn-Archdderwydd, James Nicholas, "Dyma waith bardd sy'n amlygu crefft arbennig. Mae awdl 'Un o ddeuawd' yn ddarn o waith celfyddyd gan fardd sydd yn artist, yn Wydion o fardd."

Beirniaid cystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen eleni oedd Harri Pritchard Jones, Robat Arwyn ac Annes Glynn ac, yn ôl yr arfer, gofynnwyd am nofel heb ei chyhoeddi gyda llinyn storïol cryf ac heb fod yn llai na 50,000 o eiriau. Byddai'r enillydd yn derbyn Medal Goffa Daniel Owen a £5,000. Ymgeisiodd deuddeg, sef y mwyaf ers cychwyn y gystadleuaeth yn 1978 ac fe



**R. Alun Evans - urddwyd yn
Gymrawd yr Eisteddfod**

gipiwyd y Fedal gan Tony Bianchi am ei nofel *Pryfeta*. Dywedodd un o'r beirniaid, Annes Glyn, ei bod yn teimlo ei bod yng nghwmni nofelydd profiadol gyda "dychymyg gwreiddiol, soffistigedig ar waith".

Brodor o North Shields, Northumberland yw Tony, ac aeth i Brifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan lle dysgodd y Gymraeg. Wedi cyfnodau yng Nghei Conna Sir y Fflint ac Aberystwyth, ymgartrefodd yng Nghaerdydd gan weinyddu grantiau ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru am yn agos i chwarter canrif.

Paentiadau o dirluniau dychmygol gafodd sêl bendith unfrydol Panel Celfyddydau Gweledol yr Eisteddfod eleni, gan ennill y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain i Emrys Williams o Gaerdydd. Derbyniodd Mr Williams, sydd yn enedigol o Lerpwl, y Fedal Aur a £5,000 yn rhoddedig gan Gyngor Tref y Fflint.

Cafwyd llwyddiant hefyd yn rhai o gystadlaethau llwyfan yr Wyl. Enillwyd y Ddeuawd Gerdd Dant ddydd Iau gan Owain Siôn o Gaerdydd ac Awel Mai o Gaernarfon – ar ôl dim ond tridiau o ymarfer gyda'i gilydd! Wrth deithio i fyny i'r Eisteddfod ar gychwyn yr wythnos fe gafodd Owain, sy'n wreiddiol o Lwyndryys, wybod fod ei gyd-ganwr wedi tynnu nôl. Fe gysylltodd â ffrindiau i chwilio am rywun, a daeth Awel Mai o Gaernarfon i'r adwy. Dydd Llun y cyfarfu'r ddau gyntaf i ymarfer ac er nad oedd hi'n gwybod y geiriau na'r alaw, fe ddysgodd nhw, ac fe gipiodd y ddau'r wobwr gyntaf.

Daeth llwyddiant unwaith eto i rai o gorau'r Brifddinas, ac fe enillodd Parti Wenallt Bach y gystadleuaeth Llefaru i barti hyd at 16 o leisiau.

Rhestr lawn enillwyr dalgylch y Dinesydd - Llongyfarchiadau iddyn nhw i gyd

R. Alun Evans : urddwyd yn Gymrawd yr Eisteddfod

T. James Jones : Y Gadair am awdl ar y testun 'Ffin'

Tony Bianchi : Gwobr Goffa Daniel Owen – nofel 'Pryfeta'

Emrys Williams : Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain

Nic Ros : Y Fedal Ddrama – Yn wreiddiol o Gaerdydd ond bellach yn byw ym Mangor

Ifan Roberts, Pentyrch : Cyfansoddi Drama Gomedï a Chyfansoddi Monolog yn yr adran Drama

Dylan Wyn Williams, un o Olygyddion y Dinesydd : Cystadleuaeth Cyfansoddi Drama Fer

Iolo Edwards : Ysgoloriaeth Geraint Morris mewn cydweithrediad â Cyfle. Sgript teledu neu ffilm 10 munud o hyd.

Côr CF1 : Côr Cymysg unrhyw nifer dros 20

Côr Godre'r Garth : Côr Cymysg dros 45 mewn nifer

Côr Aelwyd Hamdden Caerdydd – Côr Pensiynwyr dros 20 o leisiau

Parti Llefaru hyd at 16 o leisiau – Parti Wenallt Bach

Stacey Wheeler : Unawd Soprano dan 25 oed

Andrew Mathias, Bro Morgannwg : Unawd Baritone dros 25

Rhydian Marc : Unawd allan o unrhyw sioe gerdd neu ffilm dros 19

Jâms Powys : Monolog i rai 12 – 16 oed

Owain ac Awel (Caerdydd a Chaernarfon): Deuawd Cerdd Dant dros 21

Parti Cerdd Dant dan 25 : Parti Glantaf (2ail)

Bethan Semmens : Unawd Telyn 16 – 19 oed (2ail) a'r Rhuban Glas Offerynnol 16 - 19 (2il)

Ffion Mai Rhisiart : Cystadleuaeth Goffa John Weston, Unawd telyn deires neu delyn Geltaidd di-bedal (2ail)

Martha Holeyman, Penarth : Unawd Telyn dan 16 (2il)



**Tony Bianchi, enillydd
Gwobr Goffa Daniel Owen**



T. James Jones - Enillyd y Gadair

Is-Bwyllgor Dawns

Ers sefydlu'r is-bwyllgor Dawns ym Mis Ionawr mae'r aelodau wedi bod yn brysur iawn. Y gwaith cyntaf wrth gwrs oedd dewis y testunau ac erbyn hyn mae ffrwyth eu llafur i'w gweld yn Rhestr Testunau'r Eisteddfod. Mae hefyd nifer o weithgareddau codi arian wedi trefnu yn cychwyn gyda noson TIKKA COCH CAERDYDD sef noson o gyrru, sgwrs a hwyl ar nos Iau, Medi 20fed 2008 ym mwyty'r Jinuk, Heol y Bontfaen, Treganna, Caerdydd. Am bris o £20 addewir 2 gwrs blasus a sylweddol a phrofiad amhrisiadwy.

Am docynnau a bwydlen ffoiniwch Eiry Palfrey ar : 07720 009 902 neu drwy e bost : eiry@tracrecord.co.uk

Derbyniwyd i'r Orsedd

Gwisg Werdd:
Richard Garner Williams
Gwisg Wen:
Dr Hefin Jones
Carys Tudor Williams

Llongyfarchiadau calonnog i bawb. Cawn edrych ymlaen yn awr at Awst 2 – 9, 2008, ac Eisteddfod Caerdydd a'r Cylch ar gaeau Pontcanna.



**CHWILIO AM
BLASTRWR?**

**Am amcanbris ffoiniwch
Rhiannon ar:
07859 919477**

Pwyllgor Apêl Pontcanna, Treganna a Pharc Fictoria

Dyna ni, mae Eisteddfod Sir y Fflint drosodd a ninnau bellach yn edrych ymlaen at flwyddyn arall o godi arian at ein Heisteddfod ein hunain yma yn y Brifddinas y flwyddyn nesaf.

Mae tymor ein Pwyllgor Apêl yn cychwyn gyda Ffair ym Mharc Fictoria ar ddydd Sadwrn 15 Medi. Dyma ddiwrnod y gêm rygbi rhwng Cymru ac Awstralia yng nghystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd. Felly, bwriadwn gael sgrîn fawr yn y Parc i ddangos y gêm. Yn ogystal â hyn bydd nifer o stondinau amrywiol yno, adloniant gyda nifer o artistiaid adnabyddus, ac mi fydd Glyn a Maggie yno hefyd o Radio Cymru, yn darlledu'n fyw. Mae digonedd o bethau i gadw'r plant yn ddi-ddig – o gastell neidio, golff gwirion, cystadleuaeth gwisg ffansi, a gêmiau amrywiol.

Bydd rhywbeth at ddant pawb yn y Ffair! Diwrnod i'r teulu cyfan – dewch yn llw!

Cynhelir cyfarfod cyffredinol o'r Pwyllgor Apêl yn nhafarn y Duke of Clarence ar 5 Medi – mae croeso MAWR i unrhyw un sydd â diddordeb mewn torchi llawes a rhoi help llaw i ni gyda'r gwaith o godi arian. Rydym eisoes wedi cyrraedd hanner y nod a byddai'n wych o beth gweld rhagor yn dod i gefnogi! Os nad oes rhywbeth at eich dant yn ein rhaglen codi arian – dewch draw i gynnig syniadau.

Dyma fraslun o rai o'r digwyddiadau sydd eisoes wedi'u cynllunio ar gyfer tymor yr hydref:

15 Medi – Y FFAIR!
10 Hydref – Noson o wleda yn yr Happy Gathering

2 Tachwedd – Stomp – gyda'r Archdderwydd Dic Jones fel Stompfeistr (a'n Prifardd Jim yn sicr yn cyfrannu!!!)
Clwb Criced Morgannwg.

16 Tachwedd – Arwerthiant – Neuadd Llanofor

Cysylltwch â Swyddfa'r Eisteddfod am fanylion ynglŷn â thocynnau. Ymunwch yn yr hwyl a'r cymdeithasu!

CYFROL 'BRO A BYWYD' AR GWYNFOR EVANS

**- i'w chyhoeddi ar gyfer Eisteddfod
Genedlaethol Caerdydd, 2008**

Neges oddi wrth Peter Hughes Griffiths i ddarllenwyr Y Dinesydd:

Rwyf wedi derbyn gwahoddiad gan 'Barddas' i gasglu a chyhoeddi lluniau a deunydd ar y diwedd ar Gwynfor Evans a fydd yn rhoi darlun clir o'i fywyd i ni mewn llun a gair yn y gyfres boblogaidd "Bro a Bywyd". Dyma fynd ati felly i gasglu lluniau a fydd yn dangos i ni agweddau o fywyd Gwynfor o ddyddiau ei blentynod yn Y Barri hyd at ei ddyddiau olaf ym Mhencarreg.

... ar hyd a lled Cymru rwy'n siwr fod gan unigolion eu lluniau personol lle mae Gwynfor yn ymddangos ynddynt ac a allent fod yn allweddol i'r casgliad er mwyn medru adrodd yn llawn fywyd a chyfraniad y person arbennig hwn. Gofynnaf ichi'n garedig i gysylltu gyda mi os oes llun neu luniau o unrhyw achlysur neu ddigwyddiad gennyh lle'r oedd Gwynfor yn rhan ohono ...

Byddwn yn cydnabod yn y llyfr enwau'r personau sydd yn berchen ar y lluniau a ddefnyddir. Mae angen o leiaf 300 o luniau arnaf. Edrychaf ymlaen yn fawr at glywed oddi wrthoch, a diolchaf ichi ymlaen llaw am eich cydweithrediad parod a hynod bwysig. Gellir cysylltu gyda mi drwy fy ffonio ar 01267 232240 neu trwy e bost ar Phughes-griffiths@sirgar.gov.uk neu yn 20, Waundew, Caerfyrddin SA31 1HE.

Newyddion o'r Eglwys

Tabernacl, Yr Ais

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Nia Eleri ac Eifion Gwynne, Aberystwyth, ar enedigaeth Modlen Haf ar 11 Gorffennaf - chwaer fach i Mabli Eleri, ac wyres i Eleri a Robin Gwynnaf, Llandaf. Bu misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf yn rhai gwlyb a gaeafol iawn, ac meddai'r tad-cu balch am ddyfodiad Modlen:

Ti oedd heulwen Gorffennaf
A'r wyrth fore geni'r haf.

Priodas

Dymuniadau gorau i Sian Elin Lewis a Jon Boyle ar eu priodas ganol Awst. Merch o ardal Rhydargaeau yw Sian, a Jon yn hanu o Gaerdydd. Roedd y gwasanaeth o dan ofal y Parch Huw Matthews.

Dathliadau Priodasol

Llongyfarchiadau i Gwyn ac Eirlys Pritchard Jones ar dathlu eu Priodas Ruddem eleni.

Hefyd mae Helen a Rhys Jones yn dathlu eu Priodas Arian.

Cyflwyno Andreas i'r Eglwys.

Braf yw nodi'r digwyddiad hyfryd yn y Cwrdd Undebol a gynhaliwyd yn y Tabernacl. Cyflwynwyd Andreas, mab Siwan a Tim Richards, i'r Eglwys. Ychwanegiad diddorol i'r gwasanaeth oedd clywed Joseff, Lydia ac Isaac yn adrodd yr un adnod - un yn y Gymraeg, y llall yn Saesneg a'r olaf yn Almaeneg. Mae'r teulu, wrth gwrs, yn byw yn yr Almaen ar hyn o bryd.

Aelod Newydd

Ein braint oedd derbyn Martin Cray, tad Nia McVeigh, sydd â'i gartref yn Danes Court, yn aelod newydd i'r eglwys. Colled Eglwys Calfaria, Penygroes, yw ennill y Tabernacl.

Cymanfa Ganu'r Eisteddfod

Bu'r sawl a oedd yn medru bod yn yr oedfa gerddorol hon ar ddiwedd wythnos cyhoeddi'r Eisteddfod Genedlaethol yn sicr o sôn am y wefr arbennig o glywed Côr yr Eisteddfod yn canu am y tro cyntaf. Diolch i Alun Guy a Robert Nicholls am roi arweiniad clir i'r cantorion ac i'r cantorion am ymateb mor ddeheuig. Roedd dros chwe chant o bobl yn bresennol yn mwynhau'r wledd o ganu. Recordiwyd y cyfan gan Gwmni Afanti ar gyfer y rhaglen *Dechrau Canu, Dechrau*



Parch Huw Matthews, Parch Eifion Wynne, Siwan a Tim Richards, Andreas, Non a Gwenallt Rees, Lydia, Isaac a Joseff

Canmol. Bydd y rhaglen gyntaf yn cael ei darlledu yn yr Hydref a'r ail raglen yn y flwyddyn newydd.

Ymweliad ag Eglwys Fethodistaidd y Mwmbwls

Diolch i Gwenallt a Non Rees am drefnu'r daith lawr i'r Mwmbwls i ymweld â'r eglwys yno. Mentrodd yr eglwys i ailgynllunio defnydd yr adeilad i gwrdd â her ein hoes, a thybiwyd bod modd i ni yng Nghaerdydd ddsygu o'u profiad. Aeth ugain o blith ein haelodau yno, a sylweddolwyd bod ein cyfeillion o'r Mwmbwls wedi mentro mewn ffydd ac yn cynnig syniadau diddorol a gwerthfawr ar gyfer y Tabernacl.

Swydd Newydd Eiri Jones yn Aberystwyth

Llongyfarchiadau i Eiri Arfon Jones ar gael ei phenodi i swydd sy'n gyfrifoldeb dros holl waith gofal nyrsio yn Awdurdod Iechyd Ceredigion. Bydd yn gweithredu fel Prif Swyddog Nyrsio'r Awdurdod gan fyw yn Aberystwyth dros y dyddiau gwaith a dychwelyd i Efail Isaf dros y penwythnos.

Y BBQ

Fel rhan o ymdrech genhadol yr eglwys, trefnwyd BBQ yn yr ardd gefn lle roedd modd i aelodau ddod â ffrindiau i gwrdd ag aelodau'r eglwys mewn sefyllfa anffurfiol. Dymuniad y pwyllgor Efengylu oedd bod oedfa'r hwyr yn rhoi mwy o gyfle i aelodau ifanc yr eglwys gymryd rhan, a gwnaed hynny gan Eleri Jones, Angharad Jones, Rhodri ab Owen, Iwan Jones, Luned Jones a Rhian Elin Williams. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y fenter, ac yn arbennig i Chris a Bryn am ddangos eu doniau wrth goginio'r bwyd.

Os ydych am flasu BBQ arall, dowch i'r oedfa deuluol am 10.30 ar ddydd Sul y 9ed o Fedi. Thema'r gwasanaeth fydd 'Blas ar Addoli' a bydd y BBQ yn dilyn.

Eglwys y Crwys

Tawel yw'r Eglwys yn y ddinas fel arfer ar yr adeg yma o'r flwyddyn. Paratoi ar gyfer gweithgareddau tymor y gaeaf yw prif nodwedd y cyfnod hwn. Eleni fodd bynnag daeth nifer o'r aelodau ynghyd i lanhau a thwtio tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r Gweinidog a'r blaenoriaid yn ddiolchgar iawn am bob cymorth a gafwyd. Penderfynwyd hefyd wella gwedd yr adeilad oddi mewn trwy roi nenfwd newydd i'r addoldy, yng nghyd â goleuadau crog.

Y Gymdeithas.

Bu Pwyllgor y gymdeithas hon yn brysur am wythnosau yn paratoi rhaglen ar gyfer misoedd y gaeaf, y swyddogion am y flwyddyn gyfredol yw y Parch Glyn Tudwal Jones, Llywydd; Glenys Thomas, Cadeirydd; y Parch Ifan Roberts, Is-Gadeirydd; Siân Couch, Ysgrifenyddes, a'r Trysorydd yw Arthur Evans. Edrychir ymlaen at ffrwyth eu gwaith diflino.

Eisteddfod y Fflint.

Daeth i ran nifer o'n haelodau o gael boddhad a phleser o fod yn perthyn i gorau llwyddiannus yn ein Gŵyl Genedlaethol eleni. Llongyfarchiadau i'r corau hynny a'r unigolion o fewn yr eglwys

Ebeneser, Heol Siarl

Cyflwyno sieciau

Ar ddydd Mercher, 18fed Gorffennaf, aeth Alun Tudur a Malcolm Thomas, yr Ysgrifennydd, i gyflwyno sieciau am £670 yr un i'r elusennau y buom yn eu cefnogi hyd at y Pasg eleni. Yr elusennau oedd Strôc Cymru, Ysbyty Rookwood, ac Ysbyty Eglwysnewydd. Cafwyd croeso twymgalon a diolch diffuant am y cyfraniadau. Roedd cael cydnabod y gwaith pwysig a diflino sy'n cael ei wneud gan y dair elusen 'iechyd' yn arwydd bach o werthfawrogiad, gan fod llawer o'n teuluoedd wedi'u cyffwrdd gan eu gwaith. Aeth siec hefyd i Agape fel rhan o'n cyfraniad a'n cefnogaeth i'r fenter ffydd hon.

Cofio Howard Spriggs

Drannoeth aeth Alun Tudur, Malcolm Thomas, Gwenda a Peter Spriggs i Borth Caerdydd i swyddfa Cancer Care Cymru, ein helusen am eleni, i gyflwyno siec am £3000 er cof am y diweddar Howard Spriggs. Bu farw Howard ym mis Mai ar ôl cystudd hir a blinderus. Roedd e'n artist amryddawn ac yn ddyn diwylliedig. Bydd colled ar ei ôl yn y gwasanaethau ac yn arbennig ei gyfraniadau llawn gwybodaeth yn y cwrdd gweddi. Coffa da amdano.

Sul Cyfundeb Dwyrain Morgannwg

Ar fore Sul 15 fed Gorffennaf daeth tyrfa dda ynghyd i ddathlu Sul y Cyfundeb unwaith eto eleni yn Ysgol Plasmawr. Cafwyd paned, sgwrs a chyfle i brynu nwyddau masnach deg cyn araith fer a gwasanaeth agoriadol dan law Eurwen Richards, Cadeirydd y Cyfundeb. Aeth y plant cynradd i fwynhau cael eu diddanu gan Rosan Saunders a Rhiannon Dixon, o Borthcawl, a'r plant dan 7 oed gydag Elin Maher a Non Lewis o Gasnewydd. Roedd tri dewis gan yr oedolion – Alun Tudur yn siarad ar William Wilberforce, Aled Edwards ar Broblemau Ceiswyr lloches wrth iddynt ddod i'r wlad hon, a Robin Wyn Samuel ar Gaethwasiaeth Fodern. Aled Pickard arweiniodd y grŵp ieuencid a rhoi cyflwyniad ar wahanol agweddau o gaethwasanaeth yn y gymdeithas fodern.

Hywel Wyn Richards oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth clo. Testun ei sgwrs oedd Iesu yn golchi traed y disyblion, y weithred ddiymhongar honno gan Iesu. Canodd Elin Maher y gân, 'Cofia Fi' yn ystod sioe sleidiau. Cafodd y lluniau gryn argraff. Canodd y criw plant cynradd gân o ddiolch i Dduw ddysgwyl yn ystod eu sesiwn nhw, a

therfynwyd drwy rannu'r cymun mewn grwpiau o ddeg. Do, bu'n fore bendithiol arall yng nghwmni ein gilydd fel cyfundeb, oedd yn dangos ein bod wedi ein clymu yn un yn Nuw.

Torri'n Rhydd

Dyma oedd teitl oedfa a gynhaliwyd yn Ebeneser gan Y Mob (Mâs o'r Bâd) ar nos Sul 15fed Gorffennaf. Cychwyn oedd hwn ar gyfres o gyfarfodydd fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn cicio yn erbyn tresi ffurfioldeb. Y maent wedi eu hanelu ar gyfer pobl ifanc a phobl ifanc eu hysbryd. Arweiniwyd y cyfarfod gan Martyn Geraint, Arfon Jones, Lewis Roderick ac Alun Tudur. Trafodwyd rheolau yn y cyfarfod hwn a'r cwestiwn a ydynt yn ein gwneud yn gaeth neu'n rhydd? Cynhelir y cyfarfod nesaf yn ystod tymor yr Hydref.

Priodas Aur....Beth?.....a Phriodas Aur!

Tybed a oes unrhyw eglwys, nid yn unig yng Nghaerdydd ond yng Nghymru gyfan ble mae dau gwpwl wedi dathlu eu priodasau aur o fewn pythefnos i'w gilydd? Dyna ddigwyddodd yn hanes aelodau Ebeneser, wir i chi! I ddechrau ar 20fed o Orffennaf roedd Denzil a Beti Wyn Davies yn dathlu, ac yna ar 1af Awst, tro Idwal a Mair Hughes oedd hi. Dymunwyd yn dda iddynt ar gyrraedd carreg filltir gofiadwy iawn yn eu hanes. Ar 22ain Gorffennaf addurnwyd y capel gan 50 o rosod yr oedd Denzil wedi'u rhoi i Beti, un ar gyfer pob blwyddyn o briodas.

Bedydd

Ar fore Sul 29ain Gorffennaf, daeth nifer o'r teulu a ffrindiau ynghyd i dystio i'r achlysur arbennig Bedyddiwyd Gruffydd Dwryd Jones, mab Jonathan ac Elin Jones, ac ŵyr i Cedric a Brenda Jones a Sion ac Eirlys Dwryd. Yn ei bregeth pwysleisiodd Alun mor bwysig yw plant yng ngolwg Duw, mai diniweidrwydd plentyn sy'n eu gwneud yn arbennig – "Gadewch i'r plant ddod ataf fi a pheidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy mae teyrnas nefoedd yn perthyn."

Eisteddfod Y Fflint 2007

Cafwyd perfformiad clodwiw gan Bethan Semmens mewn dwy gystadleuaeth telyn, ble llwyddodd i gyrraedd yr ail safe yn yr unawd telyn 16-19 oed ar y prynhawn Mawrth, ac yna yn y Rhuban Glas Offerynnol 16-19 oed ar y prynhawn Mercher. Llongyfarchiadau iddi a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Minny Street, Caerdydd

Croeso!

Hyfryd oedd croesawu **Siân Meinir** (Treganna) i'n plith yn aelod newydd yn yr Oedfa Gymun ddechrau mis Gorffennaf. Braint oedd cael tystio i fedydd **Myfi Wyn Morris** – merch Ellen a Steff (Penylan) – a **Mali Siôn Newis** – merch Beca a Richard, a chwaer Iolo (Yr Eglwys Newydd) – ym mis Gorffennaf.

Genedigaeth

Dymunwn bob bendith i Prys ac Yvonne Williams yn Awstralia ar enedigaeth **Harri James**; brawd bach i Tomos a Megan ac ŵyr i Mererid a Len Williams (Yr Eglwys Newydd).

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cymryd rhan yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Yr Wyddgrug; gwelwyd a chlywyd nifer o'n haelodau ar y llwyfan, y maes a'r cyfryngau - yn gystadleuwyr, beirniaid, cyflwynwyr a stondinwyr. Llongyfarchwn dri o'n diaconiaid yn arbennig: Rhiannon Evans ar hyfforddi y Parti Llefaru buddugol, Eilonwy Jones ar hyfforddi ac arwain y Côr Pensiynwyr buddugol, a Hefin Jones ar gael ei dderbyn i'r Orsedd yn Urdd Derwydder er Anrhydedd.

Picnic a Thrip

Fel rhan o ymgyrch Fforwm Masnach Deg Cymru i dorri record byd daeth nifer o aelodau Minny Street at ei gilydd am bicnic yng ngerddi Tŷ Eglwys y Rhath, Penylan, b'nawn Sul cyntaf mis Gorffennaf. Wythnos yn ddiweddarach daeth gweithgarwch yr Ysgol Sul i ben dros yr haf gyda thrip i Rest Bay, Porthcawl. Gan gofio tywydd mis Gorffennaf, braf oedd gweld yr haul yn ystod y ddau achlysur yma!

"Gyda'n Gilydd"

Ganol mis Gorffennaf, bu aelodau Minny Street, ynghyd â chyfeillion o Eglwysi Annibynnol Cyfundeb Dwyrain Morgannwg, mewn bore o gydaddoli a chymdeithasu yn Ysgol Plasmawr. Cafwyd amrywiol weithgareddau ar gyfer pob oed, i gyd o dan y thema gyffredinol: Caethwasiaeth. Dros mis Awst, hyfrydwch fu cael rhannu oedfaon gydag aelodau'r Crwys, y Tabernacl ac Ebeneser wrth i'r bedair Eglwys ddod at ei gilydd.

Bethel, Rhiwbeina

Llongyfarchiadau mawr i nifer o bobol ifanc sydd wedi graddio eleni: Angharad Davies, Pensaerniaeth; Siân Elen, Gwleidyddiaeth (a phob lwc yn y swydd yn Moscow, Siân); Gwenllian Elfyn, Dawns; Carys Jones, Bioleg; Nerys Jones, Drama, a llongyfarchiadau hefyd i Marc, brawd Nerys, ar gwblhau ei Ddoethuriaeth yng Ngholeg y Brifysgol, Llundain.

Llongyfarchiadau i Branwen Williams a Siôn Hill ar eu llwyddiant yn yr arholiadau lefel 'A'. Bydd Branwen yn mynd i Brifysgol Aberystwyth i astudio Cymraeg a Gwleidyddiaeth.

Dymunir pob dymuniad da i Nerys Jones, yr Eglwys Newydd, sy'n treulio cyfnod ar Ynysoedd Cook yn y Môr Tawel fel rhan o'i chwrs meddygaeth.

Llongyfarchiadau i Mrs Angela Parry-Lowther ar gael ei phenodi'n Swyddog Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus y datblygiad swyddfeydd ym Mae Caerdydd. Bu mewn swyddi tebyg gyda'r BBC a'r Awdurdod Datblygu.

Cyflwynwyd anrheg i Mrs Menna Plassmann gan y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan, i gydnabod ei gwaith fel athrawes Ysgol Sul ers sawl blwyddyn. Ac mi gafodd aelodau'r Ysgol Sul eu barbeciw blynyddol er gwaetha'r tywydd garw. Diolch i Iwan Jones am y coginio ac i bawb fu'n trefnu.

Sgyrsiau Oriel 1, Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru

6 Medi 2007 (2pm) Fy Nghaerdydd gan Brian Lee, awdur Cardiff Remembered (Saesneg)

13 Medi 2007 (2pm) Chwaraeon yng Nghymru (Cymraeg)

20 Medi 2007 (2pm) Pwy oedd Owain Glyndwr? Pam ddylem ni gofio amdano? Dr John Davies ac eraill (Saesneg)

27 Medi 2007 (2pm) Y Got Aur - dysgwch ragor am y gwisgoedd sidan o'r 18fed ganrif o Blasty Tredegar (Saesneg)

Mynediad am ddim ond rhaid bwcio drwy ffonio 029 2057 3403 / 029 2057 3424

Y SECTOR BREIFAT YN HYBU GWASANAETHAU CYMRAEG

Mae gwefan newydd, **CYMorth.com**, wedi cael ei lansio yn ddiweddar i hybu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael i gwsmeriaid yng Nghymru.

Crewyd CYMorth.com gan Grŵp Sector Preifat yr Iaith Gymraeg, sydd wedi ei ffurfio i edrych ar y galw am wasanaethau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg a'r defnydd sydd yn cael ei wneud o'r gwasanaethau hynny.

Y gobaith yw y bydd y wefan, sy'n cynnwys rhifau ffôn yr holl ddarparwyr sy'n cynnig gwasanaeth Gymraeg i gwsmeriaid, yn siop-un-stop i unrhywun sydd eisiau trafod eu busnes trwy gyfrwng y Gymraeg ac felly'n cynyddu'r niferoedd o ddefnyddwyr gwasanaethau Cymraeg.

Crëwyd y safle gwe gyda chymorth ariannol gan BT, NatWest a Chymdeithas Adeiladu'r Principality a gyda chefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Gellir cael mynediad i'r safle gwe drwy gyfrifiadur neu drwy ffôn symudol ac felly mae'n hawdd dod o hyd i'r rhifau ffôn angenrheidiol pan fo angen.

Dyma'r cam cyntaf yng ngwaith Grŵp Sector Preifat yr Iaith Gymraeg, a sefydlwyd ym mis Mai eleni. Y cam nesaf fydd gwneud cais am gymorth ariannol am brosiect i edrych ar fanteision economaidd a chymdeithasol darparu gwasanaethau Cymraeg, yn ogystal â'r sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar y gweithlu i gynnig y gwasanaethau.

Dywedodd Ann Beynon, Cyfarwyddwraig BT Cymru, "Mae'n hanfodol ein bod ni, fel sector preifat, yn annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaethau. Does dim rhaid i bobl siarad Cymraeg yn berffaith na bod ag ofn defnyddio'r iaith. Gallwch droi i'r Saesneg os nad ydych yn deall rhan o'r sgwrs neu ddefnyddio geiriau Saesneg os bydd hynny'n helpu. Y peth hanfodol yw bod y gwasanaethau yn cael eu defnyddio."

Hysbysebwrch yn

y dinesydd

Cylchrediad eang yn y ddinas a'r cylich ac ar y we

www.dinesydd.com

Ffôn: 029 20565658



Llio Penri, Aled Williams, NatWest gyda Ann Beynon o BT yn lansio www.cymorth.com

Y Parch T.DEWI A MYRA JONES

Rwyf yn paratoi llyfryn i goffau'r Parch Dewi a Myra Jones, ac yn chwilio am rai efallai oedd yn eu cofio'n tyfu i fyny a chystadlu yn eu herbyn, neu yn aelodau o'u praidd yn y gwahanol ardaloedd neu yn aelod o'u partion ac wedi cael hyfforddiant ganddynt. Roedd T Dewi Jones, a anwyd yn un o feibion talentog Tai Mawr, Nant, Corwen, a Myra yn ferch i Tom a Margaret Hannah Jones, Crosslan. Cafodd hi ei geni yn 1919 ac roedd ei mam, fel hithau, yn rhedeg Aelwyd. Bu'r ddau yn adroddwyr o fri, ac ymddiddorent mewn Canu Penillion a Gwerin gan hyfforddi unigolion a phartïon yn Nyffryn Conwy a Llangefni, a beirmiadu yn lleol ac yn genedlaethol.

Os oes unrhyw atgofion gennych a fydddech gystal â chysylltu â mi a dof i'ch gweld/ar y ffôn i gael sgwrs.

Nesta Davies

nestadavies@hotmail.com

Top Flat, Netherby, Stryd Ucha, Abergele. LL22 7AR. 01745 822854

RHEOLWR SWYDDFA

Mae angen rheolwr a/neu weithiwr swyddfa i gefnogi cwmni ymgynghorwyr cynllunio (newydd) yn Llanisien.

Termau i'w trafod (ystyrir cynnig gwaith rhan amser).

Cysylltwch â Robin Williams, Asbri Planning, ar 07825 597779 neu anfonwch CV i rw@asbriplanning.co.uk

Marwolaethau

Cydymdeimlwn â:

- theulu'r diweddar Edith Beryl Davies, Treganna, a fu farw'n dawel, ond yn sydyn, ar 17 Gorffennaf. Bu'r angladd yn Eglwys Sain Mihangel, Tallyllychau, Sir Gaerfyrddin, ar 27 Gorffennaf.
- teulu'r diweddar John Ross Price, Cyncoed, a fu farw'n dawel ar 25 Gorffennaf, ar ôl cystudd hir, yn Hosbis Holme Tower, Penarth. Bu'r angladd yn Amlogfa'r Ddraenen ar 1 Awst.
- teulu'r diweddar Ieuan Davies, Penarth, a fu farw'n dawel yn Ysbyty Llandochau ar 28 Mehefin. Bu'r angladd ar 6 Gorffennaf yng Nghapel Bethel, Penarth, ac wedyn yn Amlogfa Llangrallo.
- teulu'r diweddar Mererid Morris (Bebb gynt), Meisgyn, (gynt o Fangor), a fu farw ar 29 Mehefin wedi cystudd hir a chreulon. Bu'r angladd yn Amlogfa'r Ddraenen ar 9 Gorffennaf dan arweiniad y Parch. Cynwil Williams.
- teulu'r diweddar Mike Lister, y Tyllgoed, gynt o Aberystwyth ac Abertawe, a fu farw'n dawel yn ei gartref ar 6 Gorffennaf. Bu'r angladd yn Amlogfa'r Ddraenen ar 13 Gorffennaf.
- Ar 4 Awst, yn Holm Towers, Penarth, bu farw Beryl Hall, gynt o'r Rhos, Wrecsam. Bu'n darlithio yn y Coleg Normal, Bangor, ac yng Ngholeg Addysg Caerdydd, Cyncoed. Roedd yn aelod selog yn y Tabernacl, Yr Ais, ac yno y cynhaliwyd ei hangladd ar 14 Awst, ac yn dilyn yn Amlogfa'r Ddraenen, Llanisien. Cydymdeimlir â'r teulu oll yn eu colled. Hoffai John Hall a Myfi Cosslett fynegi eu gwerthfawrogiad a diolch i holl ffrindiau Beryl am gardiau, blodau ac yn arbennig eu haelioni at achos Marie Curie, Penarth. Mae'n flin iawn ganddynt na fydd yn bosib cydnabod pob un yn unigol.
- teulu'r diweddar T. J. Davies, Cyn-Weinidog Bethlehem, Gwaelod y Garth, a fu farw yn Ysbyty Llandochau ar 30 Mehefin. Bu'r angladd ar 6 Gorffennaf yn Amlogfa'r Ddraenen, ac ar 10 Gorffennaf cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddo yn Aberystwyth.

Er cof am

y Parchedig T J Davies

Llenor, Gweinidog, a chyfaill
carcharorion a'r rhai yn gaeth i alcohol a
chyffuriau eraill.

Ef oedd ddawnus ddiddanydd, – yn rhannu
Â'r enaid aflonydd;
Ei un her oedd adfer ffydd;
Ei ofal oedd ei grefydd.

Robin Gwyndaf, 20. vii. 2007

Cofio Alma Carter

Welodd pobl leol Meinciau erioed angladd mor fawr ag un Mrs Alma Carter, yn ôl tystiolaeth y ffrindiau fyrdd a ddaeth i gyd-alaru gyda Ricky a Rhys Wyn a'r llu o berthnasau. Alma ei hun oedd wedi trefnu'r oedfa. "Dw i ddim ishe teyrnged yn fy nghanmol i'r cymyle. Jyst pregethwch yr efengyl," oedd ei geiriau di-lol, ymarferol.

A dyna i chi gwmpasu nodweddion cryfaf Alma. Mae'r geiriau yn amlygu ei phersonoliaeth benderfynol a dirodres, yn ogystal â'r gallu i drefnu a'i gwnaeth yn ysgrifenyddes mor effeithiol am gyfnod hir i Alun Williams y darlledwr, oedd wastad yn 'Mr Williams', byth yn 'Alun', i Alma. Bu hefyd yn graig weinyddol ddibynadwy, diwyd a chydwybodol yn Swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol am flynyddoedd.

Roedd ei threfnusrwydd yn un mor amlwg ar ei haelwyd – popeth yn gymen a thrwsiadus, ac yn noddfa gysurus iawn i'r teulu oedd mor agos at ei chalon. Nid rhyfedd nad oedd ganddi ddiddordeb mewn gwyliau, a hithau'n dwlu cymaint ar ei chartref. Byddai sawl un o'r merched a alwai i'w gweld yn mynd 'nôl i'w cartrefi ac yn dechrau twtio'n syth, wedi eu hysbrydoli wrth weld tŷ taclus Alma! Ond nid taclusrwydd oeraidd mohono; roedd ganddi lygad am liw a siâp a harddwch a amlygai ei hun nid yn unig yn ei chartref ond yn fwyaf arbennig yn ei dawn anhygoel gyda blodau. Cafodd sawl achlysur ei harddu gan ei threfniadau lliwgar a dychmygus – a weithiau, gan ei thalent fel pianydd.

Cofio Lorens John

Yn ystod yr haf bu farw Lorens John, 51 oed, yn Abertawe. Roedd e'n hanu o Gaerdydd ond fe'i magwyd yn Llundain, lle dysgodd y Gymraeg yn 16 oed. Symudodd i fyw ar Benrhyn Gŵyr a bu'n astudio mewn gwahanol golegau gan gynnwys Athrofa Abertawe, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth. Bu'n ŵr diwyd ar hyd ei oes ac yn frwd dros yr iaith. Ymunodd â Chymdeithas y Dysgwyr, Cymdeithas yr Iaith a Phlaid Cymru; sefydlodd Gymdeithas Cymru-Llydaw – sy'n dal i ffynnu. Bu'n dysgu Saesneg fel ail iaith draw yn Siapan, ac yno cyfarfu â'i wraig, Takiko. Fe ddychwelon nhw i fyw yn Abertawe, lle ganwyd eu mab, Heini. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu colled cynamserol.



Mae ei geiriau uchod hefyd yn adlewyrchu ei ffydd Gristnogol gadarn a chwbl ddiffuant. Roedd Alma yn byw ei chrefydd o ddydd i ddydd yng ngwir ystyr y gair, yn hynod garedig a chymwynasgar, wastad yn barod i estyn clust i wrando, ac yn ffrind ffyddlon a hwyliog i laweroedd. Ac roedd hi'n gwbl sicr ei bod yn mynd i le gwell.

Alma annwyl, paid ag wfftio'r 'deyrnged' yma. Mae'r byd yn dlotach hebddot, a'r ysgrif yma yn gyfrwng i dy lu ffrindiau fwrw eu hiraeth angerddol am y ferch â'r galon fawr.

Teyrnged gan Ann Saer
ar ran nifer o ffrindiau Alma

GOLFF YN YR ŴYL BAN-GELTAIDD

Y flwyddyn yma eto roedd golffwyr gobeithiol o Gymru'n cystadlu yn yr Ŵyl Ban-Geltaidd yn Lorient ar ddechrau mis Awst fel rhan o'r dathliadau yno sy nawr yn eang iawn. O'r 55 tîm dim ond dau oedd o Gymru ond fe chwaraeasant yn eitha' da a dal eu tir ond ddim yn y deg cyntaf!

Cynhelir y gystadleuaeth ar ddau gwrs, Val Queven a Ploemeur, gyda rownd ymarfer ar y ddau gwrs hefyd, ac mae'n rhaid cael "pro" fel un o'r tîm. Am nad oedd Bradley Dredge ar gael, "pro" o Ffrainc a gafwyd a phetasai hwnnw wedi chwarae'n well mae'n siŵr y buasai'r tîm wedi ennill! Y pedwar golffwr oedd Dafydd Hampson-Jones, Terry Smith, Peter Gillard a Mathieu Grillo. Y flwyddyn nesaf tro Cymru yw bod y wlad sy'n nodd i a chroesawu ac mae angen mwy o dimoedd golff o Gymru. Felly, chwi golffwyr o Gymru - beth amdani?

Clecs Coed y Gof

Braf iawn yw gweld cefn yr hen gabanau sydd wedi bod ar dir yr ysgol ers y ganrif ddiwethaf! Cafwyd cyffro mawr pan ddaeth Jac Codi Baw ac offer mawr arall i falurio'r cyfan yn deilchion. Edrychwn ymlaen at weld y caban dwbwl newydd sbon sydd i gyrraedd yn eu lle ac sy'n mynd i fod yn gartref i Flwyddyn 6 a rhai o blant Blwyddyn 5 y flwyddyn nesaf.

Cawsom gyngerdd dathlu llwyddiannus iawn ym Mhlasmawr ac mae ein diolch ni iddyn nhw yn fawr. Cawsom groeso twymgalon a lluniaeth i dros 300 o blant yn ystod yr ymarferion a mwynhaodd pawb.

Bu Dosbarth Derbyn Mrs. Culff a Blwyddyn 5 Mr. Iolo Davies yn ymweld â 'Jump' yn Llanisien fel gwobr am fod yn siaradwyr Cymraeg brwdfrydig.

Bu plant yr ysgol yn gwisgo yn ffasiwn yr 80au a chafwyd te parti hyfryd un prynhawn pan fuom yn croesawu cyn-ddisgyblion a staff. Brاف oedd trafod hen straeon a gweld beth oedd pawb yn wneud nawr.

Mwynhaodd pawb y disgo yn yr ysgol a diolch i Ceri Morgan.

Fel pinael ar ddiwedd yr wythnos daeth Martyn Geraint i ddiddanu'r babanod a'r iau ac roedd pob un, o'r ieuengaf i'r hynaf, wedi 'joio mas draw'! Diolch calon iddo – rydym yn edrych ymlaen i'w gael yn ôl eto cyn hir.



Brenin a Brenhines y Prom

Ysgol Mynydd Bychan

Dymuna Ann Williams ddiolch i baw am eu hanrhegion, cardiau a dymuniadau da ar achlysur ei hymddeoliad ar ôl deugain mlynedd ym myd addysg yng Nghaerdydd. Diolch arbennig i blant Blwyddyn 6 yr ysgol, gyda chymorth Mererid Hopwood, am eu cerdd:

Mrs Williams

Un bugail yn bennaeth
Pennaeth y plant
Yn athrawes gynnes ei gwên.

Pennaeth y papur a'r pensiliau,
Pennaeth y gwaith a'r geiriau,
Pennaeth yr hwyl a'r rygbi,
Pennaeth y Cymry a'r cwmni.

Un llais cwrtais
Un sbonc sionc,
A'i hamynedd hyd flaenau ei hewinedd.

Un pennaeth caredig
Yn dysgu heb gysgu,
Yn trefnu a rheoli,
Yn arwain yn arbennig.

Gyda phersawr:
'Dewch nawr!'
'Ych a fi!'
'Mas â chi!'

Hon yw'r orau yng Nghymru.

Diolch am eich cariad
Diolch am eich gofal,
Diolch yn gyfan
Gan deulu Mynydd Bychan.

Roedd y ffair haf yn llwyddiant ysgubol. Roeddem yn ofni'r tywydd ond disgleiriodd yr haul arnom drwy'r dydd. Diolch i'r Gymdeithas Rieny am eu gwaith caled.

Yna cafwyd gwibdeithiau. Aeth yr Adran Iau i Heatherston a'r Babanod i Arch Noa, a phawb wedi mwynhau'n fawr ac wedi blino'n lân.

Ac yna y Prom. Daeth plant Blwyddyn 5 a 6 i'r ysgol mewn gwisgoedd ysblennydd ac mewn 'limousines' – rhaid oedd gweld i gredu! Eto diolch i'r rhieni am drefnu'r cyfan.

Trist oedd ffarwelio â Christine Davies fu'n athrawes yng Nghoed y Gof am dros ugain mlynedd. Diolchwn iddi a dymunwn yn dda iddi yn Llanelli.

Ysgol Pencae a Techniquet



Disgyblion Ysgol Pencae yn mwynhau dosbarth gwyddoniaeth ar eu hymweliad â Techniquet.

Mae Ysgol Pencae ymhlith nifer o ysgolion sy'n defnyddio'r adnodd gwyddonol ym Mae Caerdydd i swyno plant a'u hysgogi i ddysgu mwy.

Mae Techniquet yn cynnig rhaglen addysg gynhwysfawr ond mae angen mwy o gyflwynwyr arnom er mwyn ei darparu yn Gymraeg. Mae un o'n staff, sydd bellach yn gweithio'n rhan amser fel cyflwynydd ar ôl gyrfa fel athrawes gwyddoniaeth yn Ysgol Glantaf, yn dweud "Dw i'n hoffi siarad gyda'r plant ...mae e'n hyfryd i weld eu hwynebau pan fyddan nhw'n darganfod ac yn deall cysyniadau newydd!"

Os oes diddordeb gyda chi i weithio yn Techniquet, ysgrifennwch at Yr Adran Bersonél, Techniquet, Stryd Stuart, Caerdydd CF10 5BW



Trist hefyd oedd ffarwelio â Rhinedd Eyton – Jones fu'n ddirprwy yng Nghoed y Gof am bedair blynedd ar bymtheg. Diolchwn iddi hithau hefyd a dymunwn yn dda iddi yn ei chartref newydd yng Nglan y Fferi. Edrychwn ymlaen at groesawu ein dirprwy newydd, Rhiannon Dixon, a dymunwn yn dda iddi. Croesawn hefyd Mari Hughes a Rhian De Souza yn ôl i'n plith, ac Elin Stewart, sy'n dechrau ar ei gyrfa fel athrawes.

Hoi fach am ychydig o wythnosau nawr ac yna dechreu'r brwlwm eto!

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Creu Hanes!

Daeth llwyddiant ysgubol i ran timau athletau Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yng nghystadleuaeth ysgolion Cymru a gynhaliwyd yn Aberhonddu ym mis Gorffennaf. Enillodd y merched o dan 14, y merched o dan 16 a'r bechgyn o dan 14 eu cystadlaethau. Mae hyn yn torri tir newydd yn hanes y gystadleuaeth, gan nad oes neb erioed wedi llwyddo i gipio cymaint o deitlau mewn blwyddyn. Go dda chi!

Yn ogystal â llwyddiant timau'r ysgol, cafodd nifer o gystadleuwyr unigol yr ysgol llwyddiant yn eu cystadleuthau. Llongyfarchiadau mawr i Lana Evans ac i Elinor Lewis yn eu campau ac i Steffan Jones, Sebastian Vidal a Joshua Rowe ar eu llwyddiannau hwythau.



Dwylo dros y Môr

Mae system fideo gynadledda newydd sbon yr ysgol wedi bod yn cael ei defnyddio i adeiladu ar gyfeillgarwch ein disgyblion â'u cyfoedion yn Grünstadt yn yr Almaen. Mae'r disgyblion eisoes wedi treulio amser gyda'u ffrindiau o'r Almaen tra ar daith gyfnewid ond bellach gallwn adeiladu ar hyn trwy gyfathrebu â hwy yn fyw trwy gyfrwng y system arloesol hon. Bwriedir defnyddio y sytem yn bennaf er mwyn rhwydweithio â darparwyr addysg eraill yng Nghymru gyda'r nod o ymestyn ein hystod o gyrsiau i'r disgyblion.



Timau Athletau Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Celf Cinetig!

Daeth braint ac anrhydedd i ran Adran Gelf yr ysgol yn ddiweddar pan gafodd un o gerfluniau cinetig anhygoel yr arlunydd o Bontypridd, Mr Chales Byrd, ei roi ar fenthg i ni. Bu Mr Byrd yn adeiladu ei gerfluniau yn yr 1980au, ac mae cysylltiad cryf rhwng ei waith â'r symudiad Celf Werinol. Bu ymateb y plant yn ardderchog i'r gwaith ac edrychwn ymlaen at wahodd Mr Byrd i'r ysgol i drafod ei syniadau am y broses o greu gwaith mor unigryw a chyffrous.

Perfformio yn y Cynulliad

Cafodd disgyblion drama Bl 10 – 12 lwyfan go wahanol i'w perfformiad drama yn ddiweddar. Gwahoddwyd y criw i berfformio eu drama ar y thema Brawd Mawr yng nghyntedd y Cynulliad gan y Gweinidog Jane Hutt. Bwriad y perfformiad oedd codi ymwybyddiaeth ein bod fel cymdeithas yn cael ein gwyllo, ac nad oes dim yn breifat rhagor gan fod y Brawd Mawr yn gwyllo!

Dawnsio Stryd

Bu 30 o ddisgyblion Bl 7 – 10 yr ysgol yn cynnal perfformiad unigryw mewn cyngerdd yn ddiweddar. Daeth criw ynghyd i berfformio dawnsio stryd dan ofal Gabby Bennett, Kirsty McGill,

Savannah Taylor a Rhiannon Taylor sydd wedi bod yn hyfforddi'r criw yn ystod eu hamser cinio ac ar ôl ysgol. Rhyfeddwyd pawb gan egni a phroffesiynoldeb y dawnswyr ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at ail befformiad cyn hir!

Lawnsiad Swyddogol

Rhaglen 5x60 Y Fro

Cafwyd lawnsiad cyffrous ac egniol i'r rhaglen 5x60 yn ystod wythnos olaf tymor yr haf. Cychwynwyd am 9 o'r gloch y bore yn neuadd yr ysgol gyda holl ddisgyblion Bl 7 ac 8 yn ymgymryd â gweithgareddau amrywiol – o 'dodgeball' i wersi amddiffyn! Mae'r rhaglen 5x60, a noddir gan y Cynulliad, wedi bod yn cael ei chynnal yn yr ysgol ers mis Ionawr. Dwedodd ein swyddog 5x60, Elin Leyshon, ei bod yn hynod o falch o weld cymaint o weithgareddau ymarferol yn cael eu cynnal mewn un diwrnod, sydd yn argoeli'n arbennig o dda at llwyddiant ysgubol i'r cynllun.

Y Tri Chopa

Llongyfarchiadau mawr i dri aelod o staff a ddaeth yn bedwerydd yn y gystadleuaeth i ddringo'r Tri Chopa yn ystod yr haf. Roedd Mr Andrew Evans, Mr James Evans a Mr Rhys Griffiths yn cystadlu er mwyn codi arian i gronfa Tŷ Hafan.



Cerfluniau cinetig anhygoel Mr Chales Byrd

YSGOL PLASMAWR

Taith yr Adran Gymraeg i Lanllyn

Yn gynnar ar fore Sul ym mis Gorffennaf cyfarfu tua 80 o ddisgyblion Blwyddyn 8 ar iard yr ysgol gyda'u bagiau yn barod i'w taflu ar y bws i Lanuwchllyn. Dyma oedd dechrau un o brofiadau gorau bywyd nifer o ddisgyblion. Wrth i'r bws ymadael dechreuodd y bws ar ei thaith hyfryd o bump awr. Roedd hwn yn gyfle i bawb ddod i adnabod ei gilydd yn well, i oresgyn eu hofnau o uchder ac efallai ddod o hyd i gariad newydd!

Wedi cyrraedd y gweryll roedd pawb yn awyddus i ddechrau ar y gweithgareddau. Canwio, adeiladu rafft, rhwyfo, taith llyn, cwrs rhaffau, a llawer mwy! Treuliyd nifer o oriau yn y dŵr ac yn yr awyr. Gyda'r nos cawsom gyflwyniad byr am hanes boddi Cwm Celyn gan Llinos, a oedd yn gweithio yn y gweryll. Y diwrnod canlynol cawsom y cyfle i ymweld â'r gronfa ddŵr a rhai o adfeilion Capel Celyn. Roeddem wedi ein siomi'n fawr o weld bod pobl Lloegr wedi dewis ein gwlad ni am ddŵr i ddinas Lerpwl.

Uchafbwynt y daith oedd y disgo ar y noson olaf gyda ein ffrindiau newydd o Ysgol Cymer Rhondda. Mwynhaodd yr holl ddisgyblion ac fe gafwyd noson i'w chofio!

Y bore wedyn, wedi i ni bacio'r holl fagiau, fe lifodd plant Ysgol Plasmawr allan o'r gweryll gyda nifer o atgofion melys. Cafodd pob un ohonom brofiadau gwych a hoffai'r disgyblion ddiolch yn fawr i'r athrawon a swyddogion Blwyddyn 11 am y profiad hwn.

Alex Moore a Jâms Powys, Bl 8

Theatr yr Urdd

Yn ystod y misoedd diwethaf bu criw o ddisgyblion Ysgol Plasmawr yn gweithio'n galed gyda Theatr yr Urdd yn creu fersiwn modern o 'Freuddwyd Nos Wyl Ifan', Shakespeare. Roedd y perfformiadau dros ddwy noson ym mis Gorffennaf yng Nghanolfan Addysg Gydol Oes, Gartholwg, Pentre'r Eglwys. Erin Dafydd o Fl.12 ac Owain Griffiths o Fl.11 oedd yn chwarae'r prif rannau, hithau fel Helena ac yntau fel Puck. Roedd Wil Lewis o Fl.11 a Ianto Phillips o Fl.10 yn chwarae rhannau'r meginwyr. Yn y Corws roedd Mirain Dafydd o Fl.12, Jac Moore, Ffion Lewis, Anya Gwynfryn, Caitlin McKee, Angharad Griffiths, Carys Huws a Lois B Williams o Fl. 11. Cafwyd



Disgyblion Blwyddyn 8 yn mwynhau eu hunain yng Nglanllyn

perfformiadau gwych gan bob un ohonynt.

Llwyddiannau

Llongyfarchiadau i Seren a Savannah Jones, dwy chwaer ym Mlynnydoedd 8 a 9, ar eu llwyddiant mewn cystadleuaeth nofio yn Yr Almaen. Llwyddodd y ddwy i ennill amrywiaeth o fedalau. Da iawn chi!

Llongyfarchiadau i Caio Redknapp a Geraint Ballinger o Flwyddyn 8 ar eu llwyddiant yn ennill y wobr Ffilm Animeiddio Gorau yng Nghystadleuaeth 'Cyfryngau Digidol 2007 Sir Caerdydd'. 'Cythraul Canu' yw'r enw ar eu ffilm lwyddiannus. Gwobrwyd y ddau mewn seremoni yng Nghanolfan Hawardian ar nos Fawrth, Gorffennaf 17eg.

Ffarwelio

Ar ddiwedd Tymor yr Haf ffarweliwyd â rhai o athrawon yr ysgol. Gadawodd Mr Carwyn Jenkins, Pennaeth yr Adran Wyddoniaeth, ar ôl bod gyda ni ers agoriad yr ysgol yn 1998. Pob hwyl iddo yn ei swydd newydd fel Pennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Gyfun Bryntawe. Ffarweliwyd â Miss Teleri Morris, aelod o'r Adran Fathemateg a thîm bugeiliol CA3, a fydd yn dechrau ar swydd newydd yn Ysgol Y Preseli. Gadawodd



Geraint Ballinger a Caio Redknapp, enillwyr Cystadleuaeth 'Cyfryngau Digidol 2007 Sir Caerdydd'



Swyddogion Blwyddyn 11 wrth ymyl Llyn Tryweryn.

Mrs Nora Davies wedi blynyddoedd o ddysgu yn yr Adran Saesneg gan benderfynu dechrau ar yrfa fel athrawes ysgol gynradd yn Ysgol Y Wern ym mis Medi. Wedi blwyddyn o ddysgu yn yr Adran Wyddoniaeth gadawodd Miss Nia Jenkins a fydd hefyd yn mynd i Ysgol Gyfun Bryntawe, a ffarweliwyd â Miss Ceri Tuck wedi cyfnod yn yr Adran Gelf. Diolchwn i bob un ohonynt am eu gwaith yma yn Ysgol Plasmawr a dymunwn bob hwyl iddynt yn eu swyddi newydd.

Staff newydd

Eleni croesawn nifer o staff newydd i'r ysgol. Bydd Miss Catrin Evans yn ymuno ag Adrannau Hanes a Chymraeg yr ysgol, Miss Siwan Lloyd yn ymuno â'r Adran Wyddoniaeth, Mr Emyr Wyn Davies yn ymuno â'r Adran Fathemateg, Mr Gareth Thomas yn ymuno â'r Adran Hanes, Mrs Nia Francis yn ymuno â'r Adran Addysg Alwedigaethol a Ieithoedd, Mr Simon Edwards a Mr Aled Williams yn ymuno â'r Adran Addysg Gorfforol. Bydd Mrs Ellen Norris, hefyd, yn dechrau fel aelod newydd o'r Adran Saesneg.

Croesawn ddwy o'r hen athrawon yn ôl hefyd; Mrs Esther Thomas o'r Adran Ffrangeg a Mrs Rhian Harris o'r Adran Wyddoniaeth, wedi cyfnod mamolaeth.



Ysgol y Berllan Deg

Ar ddiwrnod ola'r tymor, bu gwasanaeth ffarwelio yn neuadd yr ysgol ar gyfer plant blwyddyn 6. Hefyd, bûm yn dweud hwyl fawr wrth 'Mrs Jones y Bos', sef Mrs Rhian Jones, Prifathrawes gynta'r ysgol, sy'n ein gadael i weithio fel Ymgynghorydd Addysg i Gyngor Sir Torfaen. Diolch i blant blwyddyn 6 am eu sgets ddoniol a wnaeth i ni gyd chwerthin a chrio ar yr un pryd!!

Cychwynnodd yr ysgol yn Albany Road Primary ym mis Medi, 1999, gyda deg o blant yn unig yn y Dosbarth Derbyn, a braf oedd gweld y deg hynny yn bresennol yn y gwasanaeth. Wedi tair blynedd yno, symudodd yr ysgol i gabanau dros-dro ar safle Ysgol Uwchradd Llanedeyrn cyn symud i'n hadeilad newydd ym Medi 2003. Aeth yr ysgol o nerth i nerth o'r cychwyn cyntaf o dan ofal Mrs Rhian Jones, ac mi fydd pawb yn ei cholli - y staff a'r disgyblion i gyd. Â ninnau yn cychwyn yn ôl ym mis Medi gyda 399 o ddisgyblion erbyn hyn, pob lwc i Rhian yn ei swydd newydd yn Nhorfaen! Cofiwch alw i mewn i'n gweld o bryd i'w gilydd - bydd pawb yn hapus i weld 'Mrs Jones y Bos'!

Dyma englyn a gyfansoddwyd yn arbennig ar ei chyfer gan y Prifardd John Gwilym Jones:-

Rhian (Mrs Jones y Bos)

Y doniau sy'n dy anian, a dy wên,
Fagodd dwf y Berllan.
Doist fel fflam o Frynaman
I roi dawns Caerdydd ar dân.

Pob lwc hefyd i Sandra de Pol a fydd yn cychwyn ar ei swydd newydd yn Ysgol Pencae ym mis Medi, ac i Gemma Mearns a fydd yn dechrau ei chwrs TAR. Diolch o galon i'r ddwy ohonynt am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn.

Ysgol Plasmawr (Parhad)

Priodasau

Dymuniadau gorau i'r athrawon canlynol a briododd dros wyliau'r haf. Mr Dewi Edwards, aelod o'r Adran Dylunio a Thechnoleg, a Miss Katy Williams, a briododd ar Orffennaf 20fed. Llongyfarchiadau hefyd i aelod arall o'r Adran Dylunio a Thechnoleg, Miss Elin Lewis a Mr John Boyle, a briododd ar Awst 18fed

Ffarwelio â Mr Peter Griffiths

Mae'n anodd credu bod dros bedair blynedd wedi hedfan heibio ers i Mr Peter Griffiths, Llandaf, ymuno ag Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Cyrhaeddodd yn gorwynt o frwdfrydedd ac ymroddiad. Dangosodd y gallu i feddwl yn gadarnhaol ym mhob sefyllfa, a gweld y gorau ym mhob un. Llwyddodd i ennill calon yr ysgol, yn ddisgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr, trwy ei barodrwydd i wrando ar gŵyn, a thrwy ei barodrwydd i geisio gweithredu er lles pawb. Roedd gwên a hiwmor Mr Griffiths i'w gweld ym mhob coridor ac ystafell: roedd e wir yn adnabod y disgyblion, ac mi oedden nhw'n ei adnabod e - ac yn ei barchu a'i hoffi.

Bydd gan bob un ei atgofion personol o'r bersonoliaeth arbennig hon. Bydd gan lawer le i ddiolch am ryw air o gysur neu arweiniad a rannodd â nhw ar hyd gyrfa hir o wasanaeth ym myd addysg gyfrwng Cymraeg.

Bu Mr Griffiths yn athro Cymraeg yn Ysgol St. Cyres, Penarth, am gyfnod, ac yna'n Bennaeth Adran yn Ysgol Penydre, Merthyr. Ymunodd â staff Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn 1980



a daeth yn Ddirprwy Brifathro yno cyn ei benodi'n Bennaeth ar Ysgol Gyfun Llanhari yn 1989. Yno y bu, yn arweinydd egnïol a phoblogaidd, tan iddo symud i Rhydfelen yn Ionawr 2003. Dymunwn iddo ymddeoliad hir a dedwydd.

Lle Aeth Pawb?

Mae Cwmni Da yn y broses o gasglu lluniau ar gyfer cyfres newydd gyffrous o'r enw Lle Aeth Pawb? fydd yn cael ei ddarlledu ar S4C cyn bo hir. Bydd y gyfres yn ceisio aduno ffrindiau sydd wedi colli cysylltiad, trwy ddefnyddio hen luniau. Bydd gwefan yn cyd-fynd gyda'r gyfres, fydd yn rhoi'r cyfle i chi osod hen luniau o grwpiau o ffrindiau a thimau llwyddiannus. Gallwch ddewis llwytho'ch lluniau eich hun trwy ymweld â'r wefan - www.lleathpawb.com

Gwnewch yn fawr o'ch gorffennol ac ymunwch yn yr hwyl !



Mae Ymgynghoriaeth Bwyd Howel am benodi rheolwr swyddfa llawn amser i ddarparu gwasanaeth gweinyddol.

Cysylltwch a Nerys Howell am fwy o wybodaeth.

Tal: £15,000 - £19,000 yn ddibynnol ar brofiad.

Lleoliad: Treganna, Caerdydd

Manylion cyswllt: Nerys Howell, 07775590737

Gwefan: www.howelfood.co.uk

Gwobr newydd ar gyfer Busnes y Flwyddyn

Mae Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch wedi lansio gwobr newydd i gydnabod ac i wobrwyo busnes neu fenter newydd a ddatblygwyd gan Gymro neu Gymraes yng Nghaerdydd a'r cylch. Dywed Wyn Mears, Cadeirydd y Cwlwm, " Rydym yn awyddus i wahodd enwebiadau ar ran cwmnïau neu fusnesau newydd sydd yn ymroddedig i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a sydd yn gynaliadwy." Derbyniwyd nawdd hael gan gwmni KTS Owens Thomas yng Nghaerdydd ar gyfer y wobwr, a bydd y cwmni llwyddiannus yn sicr o gyhoeddusurwyd teilwng yn y wasg leol a Chymraeg.

Cyhoeddir yr enillydd cyntaf yn nghinio blynyddol Cwlwm Busnes Caerdydd ym mis Mawrth 2008, a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau neu enwebiadau yw Tachwedd 30ain, 2007.

Gellir sicrhau ffurflen gais a manylion pellach gan Dafydd Hampson-Jones, d/o W.H.Ireland Cyf, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd CF10 3DD. Ffôn 20 394021/6.

Digwyddiadau nesaf

Cwlwm Busnes Caerdydd:

Medi 27: Gwesty'r Parc Plaza – Cefin Roberts, Cyfarwyddwr Theatr Genedlaethol Cymru.

Tachwedd 8: Gwesty'r Parc Plaza – Emyr Afan, Rheolwr Gyfarwyddwr, Avanti.

Yn priodi cyn bo hir?
Wedi trefnu'r adloniant?
Naddo?

Felly,

Gwasanaethau 007

amdani !

DISGO DWYIEITHOG
ASIAN TWPATH
SYSTEM SAIN I AREITHIAU
RIG GOLEUO I GRWPIAU BYW


Cysylltwch â Ceri ar
07774 816209 neu

029 20813812

ceri33@btopenworld.com

Ar gael dros Gymru benbaladr
a thu hwnt

CROESAIR Rhif 77 gan Rhian Williams



**Atebion i:
22, Heol
Cae Rhys,
Rhiwbeina,
Caerdydd.
CF14 6AN
i gyrraedd
erbyn
20 Medi
2007.**

Ar Draws

1. Ffeindio'r Aelod Seneddol yng ngenau benyw anifeilaidd (5)
4. 'Rhag pob brad, nefol Dad _____ Di gartrefi'n gwlad'. (H.E.L.) (4)
8. Gwaith T.R. yw creu tail (7)
9. Allan o egni mae'n blaguro (5)
10. Lliw ffrwyth (4)
11. Gall athro drwg achosi anghytuno (8)
13. Y rhai sy'n gweld y GI dall mewn niwl (6)
14. Ai y diwedd yw i un wedi ymrwymo? (6)
16. Ai prin o gath yw'r lle hwn? (8)
17. Buan bydd lledrith ar y we (4)

20. '_____ a wrthododd yr adeiladwyr, a aeth yn ben i'r gongl.' (Salmu) (1,4)
21. Aw! Chwyrn yw blino un sy'n gwrwgnach (7)
22. Gweld y golau mewn cell oerllyd (4)
23. A ddaw cwyno o'r lle yma? (5)

I Lawr

1. Ffugio coginio hebdo ni (8)
2. 'Mawr yw _____ atom Mawr yw ei ryfedd ras di-lyth.' (M.W.) (4,2,6)
3. Camgymeriad yw codi llaw ar Gwilym (4)
4. Cywasgu cythraul annheilwng i stâd o newyn (6)
5. Diwrnod yn Rhufain gynt yn troi yn rith estron (8)
6. 'Henaint _____' - daw ag och Gydag ef a chwynfan.' (J.M.J.) (2,3,2,5)
7. '_____ yr ydwyf y flwyddyn â'th ddaioni (Salmu) (6)
13. Bob yn ail fe all ein parllys ni wneud un gwan (6)
15. Yn wir Dai newidia a bydd bur (6)
18. Defnydd pa fath o rwydi sy'n haeddu cosb (5)
19. Y testun yw 'Baich Canrif'. (4)

Cais o'r Swisdir



Mae gŵr ifanc o'r Swisdir yn awyddus i gael ffrindiau post (rhwng 20 a 50 oed) er mwyn gwella ei Gymraeg a dysgu mwy am yr iaith. Os oes diddordeb gyda chi, dyma'r manylion:
Vitus Castelberg, Aspermontstr. 28,
CH-7000 CHUR, Switzerland

Gwersi Piano

ar gael i blant ac oedolion hyd at unrhwy radd yng Nghaerdydd.
Pris: £10 hanner awr/£20 yr awr

Cysylltwch â Nia Thomas (BA
Cerddoriaeth, TAR Uwchradd
Cerddoriaeth)
ar **07745 695105**

Atebion Croesair Rhif 76

Ar draws: 1 Chwal nythle. 8 Llety. 9 Trwy, ac ofn. 10 Tawe. 13 Arnot. 15 Dychanu. 16 Dryswr. 18 Indiad. 20 Doniol. 21 Diddig. 22 Afal. 26 Afreidiol. 27 Ofer. 28 Fflur y main.

I Lawr: 2 Wyrth. 3 Lwydd. 4 Yw caru. 5 Lefiad. 6 Thema. 7 Cymedroli. 11 Adeiladol. 12 Uchod. 13 Anfad. 14 Triog. 17 Swil. 19 Diofal. 20 Dilewr. 23 Agen. 24 Edom. 25 Llogi.

Derbyniwyd 9 ymgais a 3 ohonynt yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Gwenda Hopkins, 55 Three Arches Ave, Llanishen. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Mel Dunsford a Buddug Roberts.

Calendr y Dinesydd

Mercher, 5 Medi

Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Noson agoriadol yng nghwmni Iona Williams (née James), cynllunydd gwisgoedd ar gyfer theatr a theledu. Yn festri Capel y Methodistiaid Saesneg, Windsor Road, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Sadwrn, 8 Medi

Cymdeithas Carnhuanawc. Taith Gerdded Llwybr Taf. Taith o oddeutu tair milltir yn dilyn cwrs yr hen gamlas ac i ymweld â Mynwent y Crynwyr. Cyfarfod yn nhafarn y Navigation House, Abercynon, am 1.00pm i gael cinio, dechrau cerdded am 2.00pm, a disgwyl cyrraedd yn ôl oddeutu 5.00pm. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Catherine Jobbins (029-2062-3275) neu Nans Couch (029-2075-3625).

Llun, 10 Medi

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y DINESYDD yng Nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina, am 7.00pm.

Iau, 13 Medi

'Chwaraeon yng Nghymru.' Un o gyfres Sgysiau Oriol 1 yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru am 2.00pm. Mynediad am ddim ond rhaid bwcio drwy ffonio 029-2057-3403 / 029-2057-3424.

Mawrth, 18 Medi, a Mawrth, 25 Medi

Noson agored yn Neuadd Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf am 7.00pm i greu côr unedig o ddisgyblion a chyn-ddisgyblion, athrawon a chyn-athrawon, a rhieni a chyn-rieni, i berfformio yng nghyngerdd agoriadol Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, ar achlysur dathlu pen-blwydd yr Ysgol yn 30 oed. Dewch yn llw!

Sadwrn, 22 Medi

Bore coffi i ddysgwyr yn yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays, rhwng 10.30 a 12.00. Cyfle i hel atgofion am weithgareddau'r haf! Croeso cynnes i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Mawrth, 25 Medi – Gwener, 28 Medi

Theatr Genedlaethol Cymru/Clwyd Theatr Cymru yn perfformio 'Porth y Byddar', drama newydd Manon Eames am foddï Cwm Tryweryn, yn Theatr Sherman am 7.30pm. Tocynnau: 029-2064-6900.

Mawrth, 25 Medi

Noson agoriadol dosbarth nos misol, dan arweiniad Dr E. Wyn James, sy'n trafod cynnyrch Eisteddfod Genedlaethol yr Wyddgrug. Yn Ysgol Uwchradd Martin Sant, Hillside, Caerffili, am 7.00pm. Manylion pellach gan Dr Gwen Awbery (029-2087-0000;

awbery@caerdydd.ac.uk)

neu Dr E. Wyn James (029-2062-8754;

JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Mae nifer o aelodau'r dosbarth yn dod o Gaerdydd – croeso i ragor!

Gwener, 28 Medi

Noson agoriadol Cymdeithas y Crwys am 7.30pm. 'Ar lafar ac ar gân': eitemau gan aelodau'r Eglwys.

Gwener, 28 Medi

Noson agoriadol Cylch Llyfryddol Caerdydd, yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dr E. Wyn James (029-2062-8754; JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Mercher, 18 Hydref

Gwasanaeth, Ffair a Noson Goffi Cymdeithas y Beibl yn Eglwys Park End am 7.00pm.

Gwener, 19 Hydref

Cylch Cadwgan. Cennard Davies yn siarad ar y testun, 'Reid rownd y Rhondda', ar Gampws Cymuned Gartholwg, Pentre'r Eglwys, am 8p.m. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig.

Sadwrn, 24 Tachwedd

Cynhelir Seithfed Gynhadledd Flynnyddol Canolfan Uwchegydiadau Cymry America ddydd Sadwrn, 24 Tachwedd 2007, rhwng 10.15am a 4.00 pm. Thema'r gynhadledd: 'Y Cymry a Brodorion America'. Siaradwyr: Hywel M. Davies, Jerry Hunter, Geraldine Lublin, Gethin Matthews, Fernanda Peñaloza, Siwan Rosser. Lleoliad: Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd. Manylion pellach: Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd (029-2087-4843; ebost:

cymraeg@caerdydd.ac.uk; gwefan: www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/).

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Calendr yr Eisteddfod

Medi 15

Ffair Parc Buddug (Gweler erthygl Pwyllgor Apêl Treganna.)

Medi 20

TIKKA COCH CAERDYDD - noson o gyrrï, sgwrs a hwyl ym mwyty'r Jinuk, Heol y Bontfaen, Treganna, Caerdydd. Tocynnau £20. Ffôn: 07720 009 902. Is-bwyllgor Dawns.

Medi 21

Cyngerdd Mawreddog yn Y Gyfnewidfa Lo gyda Margaret Williams a lluo o westeion enwog. Tocynnau £15 yn Caban a Siop y Felin, neu ar 20563947 / 20562756 / 20566731.

Medi 21

Cwis dwyieithog yn Ysgol y Berllan Deg. Bar a Raffl. Gan bwyllgor Cyncoed, Penylan, Llanedeyrn, Y Rhâth, Pentwyn a Phontprennau.

Medi 29

Cyngerdd gan Gantorion Ardwyn ac Iona Jones (unawdydd) yn Eglwys Crist, Radur am 7.30pm. Tocynnau £10 wrth y drws neu ffoniwch 02920 843275.

Hydref 3

Cinio Cynhaeaf yn de Courceys, Pentyrch am 7.15pm. Tocynnau £25 - 029 20890040. Gan bwyllgor Apêl Pentyrch.

Hydref 5

Noson Jazz gan bwyllgor apêl Mynydd Bychan, Gabalfa, Llwynbedw a Pharc y Rhath.

Tachedd 30

Rhaghysbysiad: Carol, Cerdd a Chân yn Eglwys Gadeiriol Llandaf am 7.30pm.

LLORIAU CYMREIG

SANDIO LLORIAU A BLOCAU PREN

Amcangyfrif am ddim

Ffoniwch David 029 2052 9332 neu 07866 474271

Crysau 'Duw' yn gwerthu'n dda

Roedd y crysau gyda'r enw 'Fowler' a'r rhif '8' arnyn nhw yn diflannu'n eithriadol o gyflym o siop Clwb Pêl-droed Caerdydd. Fel yr oedd un llwyth yn cyrraedd roedd angen archebu rhagor. Gwerthwyd pum mil mewn ychydig ddyddiau, tair mil mewn un diwrnod. Ac os na allech fforddio crysau 'Fowler', roedd rhai rhatach ar gael, rhai gyda'r gair 'God' a'r rhif '8' arnyn nhw. Ia 'Duw' oedd llysenw Robbie Fowler pan oedd yn chwarae i Lerpwl ac mae'n debyg fod y llysenw yn mynd i barhau ymhlith rhai o gefnogwyr Caerdydd.

Does dim amheuaeth mai dyfodiad Robbie Fowler i glwb Caerdydd oedd y prif bwnc trafod yn y brifddinas yn ystod yr haf. Ar ôl gyrfa ddisglair gyda Lerpwl a Lloegr mi gytunodd y gŵr 32 oed o ardal Toxteth, Lerpwl, i ddod i Gaerdydd am gyfnod posib o ddwy flynedd. Mae yn un o'r blaenwyr gorau a welwyd erioed yn yr Uwch Gynghrair a'r gobaith ydi y gall gynorthwyo'r Adar Gleision i gyrraedd y Gynghrair honno.



Cytunodd ar gyflog o ryw bymtheg mil o bunnau'r wythnos - er nad yw yn brin o geiniog neu ddwy! Mae sôn ei fod eisoes yn ŵr hynod o gyfoethog, yn werth rhyw wyth miliwn ar hugain o bunnau, gan ei fod wedi buddsoddi'n ddoeth mewn eiddo. Ac mae Fowler wedi dod â miloedd o bunnau i goffrau Clwb Caerdydd eisoes yn sgil gwerthiant y crysau a'r cynnydd aruthrol yn nifer y tocynnau tymor.

Gwyndaf Owen

Geraint yn cyrraedd y Champs Elysees

Llongyfarchiadau i Geraint Thomas, yr Eglwys Newydd, ar lwyddo i orffen y ras Tour de France, a gychwynnodd yn Llundain a gorffen ym Mharis, ar ôl seiclo 2,206 o filltiroedd – tipyn o gamp i ŵr ifanc 21 oed. Fo oedd y Cymro cyntaf i gymryd rhan yn y ras ers deugain mlynedd.

Y mae newid hinsawdd eisoes yn cael effaith ar gymunedau tlotaf y byd – gweithredwn nawr! Daw'r daith Torrwn y Carbon trwy Gymru ddechrau Medi. Un o'r cerddwyr yw John Rowlands o Gaerdydd – bydd yn cerdded o Belfast i Lundain.

Dewch i'w gefnogi!



Rali TORRWN Y CARBON

Caeau Cooper Caerdydd
8fed Medi 2007

Siaradwyr a Cherddorion
3.30-5.00 o'r gloch

Rali
Cymorth Cristnogol



Ffenestri, drysau a tai gwydr o ansawdd

- Gwarant deng mlynedd heb ddadl
- Dim blaendal
- Dim costau cudd
- Dyfynbris am ddim heb ymrwymiad

Fel y gwelwyd ar y teledu **ITV** S4C-

Tai haul o £6,600 gyda threth ar werth yn ychwanegol

Dewch draw i'n hystafelloedd arddangos yn Lon y Ffair, Caerfyrddin, neu 166 Heol Richmond, y Rhath, Caerdydd. Am fwy o wybodaethi, rhwch glic ar ein gwefan

www.nolanupvc.co.uk

e-bost: info@nolanupvc.co.uk

neu rhwch alwad i ni ar:

0845 600 90 80



FFENESTRI DRYSAU TAI HAUL